Cyngor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

# Cyngor y Gweithlu Addysg

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023















This document is also available in English

**Cyngor y Gweithlu Addysg**
**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23**

Gosodir y ddogfen hon gerbron Senedd Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ar y cyd, yn unol ag Atodlen 1 Deddf Addysg (Cymru) 2014.

# Cynnwys


## Adroddiad ar berfformiad ........................................ 4

**Adroddiad y Prif Weithredwr** ........................................ 5
**Trosolwg** ........................................ 7
**Dadansoddiad o berfformiad** ........................................ 18

## Adroddiad atebolrwydd ........................................ 34

**Llywodraethu corfforaethol** ........................................ 34
Adroddiad y cyfarwyddwyr ........................................ 35
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr ........................................ 36
Datganiad Llywodraethu Blynyddol ........................................ 37

**Adroddiadau cydnabyddiaeth ariannol a staff** ........................................ 46
Polisi cydnabyddiaeth ariannol ........................................ 47
Cydnabyddiaeth ariannol aelodau ........................................ 47
Cydnabyddiaeth ariannol uwch aelodau staff ........................................ 48
Adroddiad staff ........................................ 54

**Adroddiad archwilio** ........................................ 56

## Datganiadau ariannol ........................................ 61

**Datganiad o incwm cynhwysfawr** ........................................ 62
**Datganiad o'r sefyllfa ariannol** ........................................ 63
**Datganiad o lifoedd arian parod** ........................................ 64
**Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr** ........................................ 64
**Nodiadau i'r cyfrifon** ........................................ 65



# Adroddiad ar berfformiad

# Adroddiad y Prif Weithredwr



**Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i fyfyrio ar gyflawniadau CGA wrth gyflawni ein hamcanion strategol yn ystod y flwyddyn adrodd hon.**

Gan gyflawni ein gweledigaeth o fod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol yr ymddiriedir ynddo, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal hyder a ffydd y cyhoedd yn y gweithlu addysg, trwy gyflawni ein swyddogaethau craidd, sef cofrestru a rheoleiddio, yn ddiwyd.

Mae ein Cofrestr o Ymarferwyr Addysg (y Gofrestr) wedi parhau i dyfu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd 88,000 o ymarferwyr wedi'u cofrestru gyda CGA, ar draws saith grŵp yn y gweithlu addysg. Dyma ein nifer uchaf hyd yma. Rydym yn disgwyl i'r Gofrestr ymestyn ymhellach yn 2023, wrth i Lywodraeth Cymru osod deddfwriaeth newydd i ddechrau cofrestru a rheoleiddio athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol a gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys a chyflogedig (gyda chofrestriad dros dro ar gyfer y rhai sy'n gweithio tuag at statws cymwysedig), mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaom 257 o achosion priodoldeb i ymarfer ac addasrwydd i gofrestru. Gwnaethom hefyd ddefnyddio ein pwerau newydd ynglŷn â gorchmynion atal dros dro interim am y tro cyntaf, gan wneud cais am orchymyn atal dros dro interim dair gwaith. Ym mis Medi 2022, cyhoeddwyd ein Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig. Parhaom i helpu cofrestreion i ddeall gofynion y Cod, gan roi cyflwyniadau a sesiynau cymorth ac ychwanegu dau gyhoeddiad arall at ein cyfres o ganllawiau arfer da.

Yn rhan o'n dyletswydd statudol i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru, dechreuom waith eleni i fonitro rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r meini prawf achredu sy'n sail i'r ddarpariaeth hon.

Yn ogystal â darparu ein gwasanaethau cofrestru a rheoleiddiol yn effeithiol, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i gael dylanwad cadarnhaol ar bolisi addysg yng Nghymru. Rydym wedi cymryd rhan mewn dros 50 o grwpiau llywio cenedlaethol, a rhoi arweiniad iddynt, yn rhychwantu ystod o faterion yn ymwneud â'r gweithlu. Rydym hefyd wedi ymateb i 25 o alwadau am dystiolaeth neu ymgynghoriadau cenedlaethol. Drwy gydol yr holl waith hwn, rydym wedi gwneud defnydd deallus o'r data unigryw a ddelir ar y Gofrestr i lywio a dylanwadu ar ddatblygu polisïau a chynllunio'r gweithlu, ac wedi rhyddhau nifer o ddadansoddiadau data ar hyd y flwyddyn. Yn y cyfnod hwn ar ôl Covid, trwy ddadansoddi'r data ar y Gofrestr, byddwn yn blaenoriaethu monitro tueddiadau recriwtio a chadw, ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhanddeiliaid a llunwyr polisïau.

Yn yr un modd ag mewn gwledydd eraill, mae recriwtio a chadw gweithwyr addysg proffesiynol yn heriol, ac rydym yn gwybod o'r Gofrestr fod prinder mewn meysydd penodol o'r gweithlu. Trwy Addysgwyr Cymru, rydym wedi sefydlu gwasanaeth eirioli a chynghori i hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau addysg a sbarduno gwelliant mewn recriwtio a chadw. Rydym wedi cydweithio ag ystod eang o sefydliadau i geisio denu mwy o bobl i ymuno â'r gweithlu addysg. Rydym wedi cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cynlluniau recriwtio targedig ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd wedi arwain gwaith i gynyddu amrywiaeth yn y proffesiwn, gan weithio gyda phartneriaid i annog ceisiadau gan bobl o gymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

A ninnau'n gorff sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ariennir ein gwaith craidd trwy'r ffïoedd cofrestru blynyddol a delir gan ein cofrestreion yn unig. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian i gofrestreion a gweithio'n effeithlon i sicrhau ein bod yn sefydlog yn ariannol. Fel rheoleiddwyr eraill, rydym yn cynnal cronfeydd ariannol digonol wrth gefn er mwyn darparu sefydlogrwydd a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu diogelu rhag risgiau a allai godi o ddigwyddiadau annisgwyl. Fodd bynnag, nid yw ein ffïoedd cofrestru wedi newid ers i ni gael ein sefydlu, sy'n golygu, mewn gwirionedd, eu bod bellach yn is nag yn 2015.

Mae aelodaeth ein Cyngor ei hun wedi newid yn sylweddol. Yn fwyaf arwyddocaol, daeth cyfnod ein Cadeirydd, sef Angela Jardine, yn ei swydd i ben ar 31 Mawrth 2023 ar ôl 22 mlynedd o wasanaeth. Chwaraeodd Angela rôl allweddol yn ystod ei chyfnod yn y Cyngor, gan wasanaethu fel Cadeirydd am 12 mlynedd, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddi am ei chefnogaeth a'i harweiniad yn ystod y cyfnod hwnnw. Hoffwn ddiolch hefyd i'r wyth aelod o'r Cyngor, y daeth eu cyfnodau hwythau yn eu swydd i ben ym mis Mawrth hefyd, am eu hymroddiad a'u hymrwymiad i addysg yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at groesawu chwe aelod newydd o'r Cyngor sy'n dechrau cyfnod pedair blynedd ar 1 Ebrill 2023, sy'n ymuno â chwe aelod a ailbenodwyd am ail gyfnod yn y swydd.

Ar ran CGA, diolch am roi o'ch amser i ddarllen am ein cyflawniadau eleni.

**Hayden Llewellyn**
Prif Weithredwr









# Trosolwg

Mae'r adran hon yn amlygu ein gweithgareddau a'n cyflawniadau allweddol yn 2022-23:

## Amcan 1: Bod yn rheoleiddiwr effeithiol sy'n gweithio er budd y cyhoedd a meithrin hyder yn y gweithlu addysg

**88,748** o ymarferwyr addysg cofrestredig.

**18,756** o geisiadau newydd am gofrestru wedi'u prosesu.

**144,000** o wiriadau ar-lein gan gyflogwyr, cofrestreion a'r cyhoedd.

**1,286** o dystysgrifau statws athro cymwysedig (SAC) wedi'u rhoi.

**37** o geisiadau wedi'u hasesu am gydnabyddiaeth SAC o'r tu allan i Gymru.

**1,335** o dystysgrifau sefydlu wedi'u rhoi.

Dros **6,000** o gopïau o God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig 2022 wedi'u lawrlwytho.

**257** achosion priodoldeb i ymarfer ac addasrwydd i gofrestru wedi cwblhau.

Darparwyd cyngor, arweiniad ac adnoddau i gofrestreion er mwyn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel, gan gynnwys:

- datblygu ein cyfres o ganllawiau arfer da (**2** ganllaw newydd)
- darparu sesiynau hyfforddiant a chymorth priodoldeb i ymarfer rheolaidd

Cwblhawyd **1** asesiad achredu rhaglen AGA.

Cynhaliwyd **6** ymweliad monitro AGA.

Dyrannwyd niferoedd derbyn myfyrwyr i **15** o raglenni AGA, ar draws **7** partneriaeth AGA.

Cynhaliwyd **1** digwyddiad dysgu a datblygu ar-lein i bartneriaethau AGA.

Dyfarnwyd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru i **19** o sefydliadau gwaith ieuenctid.

Recriwtiwyd **18** o aseswyr Marc Ansawdd newydd.

Darparwyd hyfforddiant ar y Marc Ansawdd i **240** o weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid.

Gweithiwyd gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn y rhestr ymarferwyr addysg y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda CGA.

## Amcan 2: Cefnogi proffesiynoldeb a dysgu o fewn y gweithlu addysg



**3,900** o athrawon newydd gymhwyso (ANG) a'u mentoriaid wedi'u cynorthwyo yn rhan o'r rhaglen sefydlu statudol.

**37** o sesiynau cymorth sefydlu wedi'u darparu.

**38,000** o ddefnyddwyr cofrestredig yr e-bortffolio cenedlaethol (Pasbort Dysgu Proffesiynol).



Wedi cynnal **8** digwyddiad cenedlaethol yn cynnwys siaradwyr byd-enwog, gan gynnwys Siarad yn Broffesiynol gyda'r Athro Michael Fullan.



Wedi gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE).



Wedi argymell **16** o lyfrau a **3** erthygl gyfnodolyn yn rhan o Feddwl Mawr, sef ein clwb llyfrau a chyfnodolion, gan gynorthwyo cofrestreion i wneud y mwyaf o fwy na 4,500 o gyfnodolion, papurau ac e-lyfrau addysg sydd ar gael am ddim i gofrestreion ar EBSCO.



Wedi cynnal lefel uchel o gyfranogiad ac ymgysylltiad gyda chofrestreion, darpar gofrestreion, cyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill trwy gyflwyno dros **340** o sesiynau cymorth a chyflwyniadau rhithwir, cyfarfodydd ar-lein a digwyddiadau dysgu proffesiynol, creu cynnwys difyr a dynamig ar y wefan, cylchlythyrau rheolaidd a sicrhau sylw rheolaidd yn y cyfryngau.

## Amcan 3: Ceisio llunio a dylanwadu ar bolisi addysgol yng Nghymru er budd y gweithlu addysg

Wedi cyhoeddi Ystadegau Blynyddol Gweithlu Addysg Cymru a darparu pecynnau data ar raddfa fawr o'r Gofrestr i gynorthwyo Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Wedi lansio arolwg cenedlaethol o'r gweithlu Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyrff cyflogwyr.

ADDYSGWYR CYMRU
EDUCATORS WALES

Wedi tyfu brand, gwefan a gwasanaeth eirioli Addysgwyr Cymru i gefnogi blaenoriaethau recriwtio a chadw yng Nghymru.

Wedi gweithredu fel ysgrifenyddiaeth annibynnol i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC).

Wedi dangos ein hymrwymiad i wrth-hiliaeth, gan gynnal cyfres o weminarau (gyda Rhwydwaith BAMEed Cymru) a defnyddio Meddwl Mawr i amlygu llyfrau sy'n trafod addysg deg.

Wedi cefnogi lles cofrestreion trwy ymgorffori cynnwys lles yn ein cyfres o ganllawiau, adnoddau, a gwasanaethau proffesiynol.

Wedi cymryd rhan mewn mwy na **50** o grwpiau llywio cenedlaethol.

Wedi ymateb i **25** o ymgynghoriadau/galwadau am dystiolaeth.

Wedi arwain **4** prosiect cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar destunau yn gysylltiedig â datblygu'r gweithlu Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AGO).

## Amcan 4: Bod yn sefydliad gwydn, galluog a chynaliadwy yn ariannol, sy’n cynnig gwerth am arian i gofrestreion



Wedi derbyn barn archwilio ddiamod ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22.

**5** adolygiad archwilio mewnol wedi’u cwblhau gyda’r farn uchaf o sicrwydd sylweddol a dim argymhellion wedi’u gwneud.



Wedi bodloni’r holl rwymedigaethau statudol o ran diogelu data, y Gymraeg, cydraddoldeb a’r amgylchedd.



Wedi parhau i wella’r seilwaith TG, cyfleusterau a phrosesau busnes er mwyn cynnig y gwerth gorau i gofrestreion. Wedi adolygu a chryfhau trefniadau seiberddiogelwch.



Wedi darparu hyfforddiant a dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i’n staff, aelodau’r Cyngor a phanelwyr fel eu bod yn parhau i ddarparu safon uchel o wasanaeth i gofrestreion a rhanddeiliaid.



Wedi datblygu ymhellach ein trefniadau gweithio hyblyg trwy gyflwyno polisi gweithio hybrid newydd, a lansio ein rhaglen les newydd i sicrhau bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael anogaeth a chefnogaeth dda â’u gwaith.

# Amdanom ni

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ac mae'n ofyniad cyfreithiol i ymarferwyr ar draws saith grŵp gwahanol yn y gweithlu addysg, o'r cyfnod sylfaen i addysg bellach, gwaith ieuenctid a dysgu seiliedig ar waith, gofrestru gyda CGA. Ein Cofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru yw'r gofrestr gyhoeddus fwyaf o unrhyw broffesiwn yng Nghymru, a'r gofrestr fwyaf pellgyrhaeddol o weithwyr addysg proffesiynol yn y byd, gyda dros 88,000 o ymarferwyr wedi'u cofrestru.

## Gweledigaeth

Bod yn rheoleiddiwr annibynnol, blaengar ac ymatebol y mae'r gweithlu addysg, dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd yn ymddiried ynddo i gynnal safonau a gwella proffesiynoldeb o fewn y gweithlu addysg.

## Cenhadaeth

1. Diogelu dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd trwy reoleiddio effeithiol.
2. Hyrwyddo gyrfaoedd ym maes addysg yng Nghymru yn weithgar.
3. Defnyddio ein sefyllfa, ein gwybodaeth a'n data i chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu cyngor seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu annog gwelliant ar draws y system addysg yng Nghymru.

## Gwerthoedd

Wrth i ni geisio cyflawni ein cenhadaeth a gwireddu ein gweledigaeth, cawn ein harwain gan y gwerthoedd canlynol:

**Tegwch ac uniondeb**
Rydym yn gweithredu'n deg ac yn dryloyw i gynnal safonau uchel a hybu proffesiynoldeb o fewn y gweithlu addysg yng Nghymru.

**Cefnogaeth**
Rydym yn cefnogi'r gweithlu addysg i gynnal safonau ymddygiad ac ymarfer uchel.

**Rhagoriaeth**
Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith, yn agored i ffyrdd newydd o weithio, ac yn ceisio gwneud ein gorau i'r gweithlu addysg, i ddysgwyr, i rieni ac i'r cyhoedd.

**Cydraddoldeb**
Rydym wedi ymrwymo i degwch, amrywiaeth a chyfle cyfartal. Rydym yn gweithio i gyflawni'r nodau hyn, o fewn ein polisïau cyflogaeth ni a diwylliant ein gweithle, ac yn ehangach ar draws y system addysg.


**Cydweithredu**
Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid i ddatblygu a hybu rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu.

**Cydnerthedd ariannol**
Rydym yn ymrwymo i ddarparu gwerth am ariani gofrestreion ac rydym yn gweithio'n effeithlon i sicrhau ein bod yn sefydlog yn ariannol.


## Rôl a chylch gwaith

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn amlinellu'n ffurfiol ein rôl fel rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol ac arweinydd strategol yn y sector addysg yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn manylu ar ein rhwymedigaethau i'n cofrestreion, dysgwyr a phobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a'r cyhoedd. Crynhoir isod ein nodau a'n swyddogaethau, fel y'u diffinnir gan y Ddeddf.

### Ein hamcanion




### Ein swyddogaethau



## Ein pobl

Mae gan ein Cyngor 14 o aelodau sy'n gosod cyfeiriad strategol y sefydliad ac sy'n gyfrifol am ei lywodraethu.

Caiff pob aelod ei benodi am gyfnod o bedair blynedd. Penodir saith aelod yn uniongyrchol trwy system penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a phenodir saith aelod arall yn sgil cael eu henwebu gan amrywiaeth o randdeiliaid.

Rydym yn cyflogi dros 50 o aelodau staff ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn cynnal ac yn cefnogi:

- cronfa o fwy na 50 o aelodau panel priodoldeb i ymarfer
- bwrdd achredu AGA sy'n cynnwys 12 aelod
- cronfa o fwy na 45 o aseswyr y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

## Cynaliadwyedd ariannol

A ninnau'n rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol, a ariennir gan ffïoedd cofrestru, mae'n hanfodol nad ydym yn gwario mwy na'n hincwm a'n bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon. Rydym yn ceisio cadw'n ffïoedd cofrestru mor isel â phosibl ond gan ddarparu'r lefel uchaf o wasanaeth ar yr un pryd wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol. Fel rheoleiddwyr eraill, rydym yn cynnal cronfeydd ariannol wrth gefn digonol er mwyn darparu sefydlogrwydd a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu diogelu rhag risgiau a allai godi o ddigwyddiadau annisgwyl.

Rydym yn arwain gweithgareddau ar ran Llywodraeth Cymru yn rheolaidd lle'r ystyrir mai CGA yw'r corff mwyaf priodol i wneud gwaith o'r fath yng Nghymru. Mewn amgylchiadau o'r fath, Llywodraeth Cymru fydd yn talu ein costau trwy gyllid grant. Mae CGA yn gallu ymgymryd â gweithgareddau masnachol hefyd, ac mae'n gwneud hynny pan fydd yn credu bod hyn er budd cofrestreion a'r sector addysg yng Nghymru.

Archwilir ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon gan Archwilio Cymru bob blwyddyn ac, wedi hynny, cânt eu gosod gerbron y Senedd.

## Y Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i'r iaith Gymraeg ac yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog. Rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â Safonau'r Gymraeg.



Mae'r diagram hwn yn dangos strwythurau ein Cyngor a'n pwyllgorau:

## Y Cyngor

- gosod ein gweledigaeth a'n cyfeiriad strategol
- craffu ar berfformiad
- dal y Prif Weithredwr i gyfrif

### Pwyllgor Gweithredol

Mae'n goruchwylio:

- datblygiad cynlluniau strategol a gweithredol
- cynnydd yn erbyn amcanion gweithredol a strategol trwy adolygu adroddiadau chwarterol ac adroddiadau blynyddol a chyfrifon
- cynlluniau statudol

### Pwyllgor Coferstru a Rheoleiddio

Mae'n goruchwylio:

- y broses gofrestru a chynnal y Gofrestr
- y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ac priodoldeb i ymarfer
- achredu rhaglenni AGA athrawon ysgol
- mentrau i sicrhau ansawdd a gwella safonau addysgu a dysgu

### Pwyllgor Archwilio a Chraffu

Mae'n goruchwylio:

- gweithdrefnau gweinyddol a chyllid
- prosesau rheoli risg
- seiberddiogelwch a diogelu data
- gweithgarwch a gyflawnir gan archwilio mewnol ac allanol
- adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r uwch dîm rheoli'n gyfrifol am ein gweithrediadau a'n rheolaeth. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ein harweinyddiaeth, yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Cyngor, ac mae'n goruchwylio'r uwch dîm rheoli.



**Prif Weithredwr**
Hayden Llewellyn



**Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer**
Elizabeth Brimble



**Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi**
Bethan Holliday-Stacey



**Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol**
Lisa Winstone

# Amcanion strategol 2022-23

| | |
|---|---|
| **1. Bod yn rheoleiddiwr effeithiol sy'n gweithio er budd y cyhoedd a meithrin hyder yn y gweithlu addysg** | |
| **1.1** | Cynnal Cofrestr Ymarferwyr Addysg sy'n gywir ac yn hygyrch. |
| **1.2** | Gweithredu gweithdrefnau rheoliadol trylwyr, teg a thryloyw sy'n sicrhau mai dim ond y rheiny sy'n cael eu hystyried yn briodol i ymarfer all wneud hynny. |
| **1.3** | Llunio ymarfer cofrestreion trwy ddatblygu a hyrwyddo safonau ymddygiad a phroffesiynoldeb uchel. |
| **1.4** | Sicrhau ansawdd/achredu rhaglenni a darpariaeth addysg yng Nghymru. |
| **1.5** | Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod deddfwriaeth sydd wrth wraidd ein swyddogaethau rheoleiddio yn parhau'n addas at y diben. |
| **2. Cefnogi proffesiynoldeb a dysgu o fewn y gweithlu addysg** | |
| **2.1** | Darparu cyfres effeithiol o ganllawiau, adnoddau a gwasanaethau proffesiynol i gofrestreion. |
| **2.2** | Arwain a chefnogi mentrau i hyrwyddo ac annog dysgu proffesiynol effeithiol i gofrestreion. |
| **2.3** | Arwain a chefnogi mentrau i hyrwyddo ymgysylltiad ag ymchwil a helpu lledaenu arfer gorau i gofrestreion. |
| **2.4** | Sicrhau gwelededd gwaith y Cyngor ymhlith cofrestreion, rhieni, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, drwy gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, hygyrch ac ymatebol. |
| **3. Ceisio llunio a dylanwadu ar bolisi addysgol yng Nghymru er budd y gweithlu addysg** | |
| **3.1** | Darparu cyngor, ymchwil a dadansoddiad annibynnol er mwyn cynorthwyo â datblygu polisi addysg yng Nghymru, sy'n mynd ati i wella safonau. |
| **3.2** | Cydweithredu â chofrestreion, rhieni, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid i ddylanwadu ar bolisi addysg yng Nghymru, sy'n mynd ati i wella safonau. |
| **3.3** | Arwain mentrau i hyrwyddo gyrfaoedd o fewn y proffesiynau addysg a gyrru gwelliannau o ran recriwtio a chadw. |
| **3.4** | Hyrwyddo iechyd a lles a chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ddaliadau sylfaenol gweithlu addysg proffesiynol, modern. |
| **3.5** | Darparu Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC). |
| **4. Bod yn sefydliad gwydn, galluog a chynaliadwy yn ariannol, sy'n cynnig gwerth am arian i gofrestreion** | |
| **4.1** | Rheoli adnoddau yn effeithiol er mwyn bodloni anghenion presennol a'r dyfodol, gan wneud defnydd priodol o dechnoleg i annog effeithlonrwydd a gwella'n gwasanaethau. |
| **4.2** | Meddu ar brosesau cynllunio, rheoli perfformiad a chydymffurfio effeithiol, gan sicrhau eu bod yn ymgorffori arfer gorau. |
| **4.3** | Bod yn gyflogwr rhagorol sy'n hybu diwylliant cefnogol a chynhwysol lle bydd yr holl staff, aelodau Cyngor a Phwyllgor/panel yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn. |
| **4.4** | Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod deddfwriaeth sydd wrth wraidd ein hannibyniaeth, ein llywodraethiant a'n cyllid yn parhau'n addas at y diben. |

## Edrych tua'r dyfodol

Mae ein Cynllun Strategol 2023-26 yn cyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod ac yn adlewyrchu ein rôl a'n cylch gwaith statudol yng nghyd-destun ehangach addysg yng Nghymru.

Bydd gweithgareddau allweddol ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- parhau i ymgymryd â'n cyfrifoldebau statudol yn effeithiol a chyflawni gwaith Llywodraeth Cymru a ariennir gan grantiau yn unol â'r targedau a'r graddfeydd amser a gytunwyd
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddechrau cofrestru a rheoleiddio athrawon a staff cymorth dysgu yn y sector ysgolion annibynnol, a gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys a chyflogedig (gyda chofrestriad dros dro ar gyfer y rhai sy'n gweithio tuag at statws cymwysedig), mewn unrhyw leoliad yng Nghymru
- ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n sail i CGA yn gymesur ac yn cynnal ei annibyniaeth
- gwella ein cefnogaeth i gofrestrion trwy ddatblygu ein cyfres o ganllawiau, adnoddau a gwasanaethau proffesiynol ymhellach
- cynyddu ymwybyddiaeth o'n rôl a chryfhau ein cyfathrebu â'r cyhoedd
- parhau i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau digidol, gan gynnwys datblygu system cronfa ddata cofrestru wedi'i huwchraddio
- sbarduno recriwtio a chadw staff yn y proffesiynau addysg trwy Addysgwyr Cymru a'n gwasanaeth recriwtio, cyngor a chymorth
- parhau i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflwyno polisi addysg yng Nghymru, gan geisio gwella safonau yn ei dro
- cynnal sefydliad gwydn, galluog a chynaliadwy lle mae'r holl staff ac aelodau'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cyfrannu'n llawn
- sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o ran diogelu data, rhyddid gwybodaeth, cydraddoldeb, y Gymraeg, iechyd a diogelwch, yr amgylchedd ac unrhyw faterion eraill perthnasol

## Risgiau a heriau allweddol

Mae gennym weithdrefnau cadarn ar waith i reoli risg sefydliadol. Mae ein Cofrestr Risg yn sicrhau bod meysydd a amlygir yn cael eu harchwilio'n drylwyr a'u hadolygu'n rheolaidd gan reolwyr. Rydym yn darparu gwybodaeth bellach am reoli risg yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae mwyafrif y risgiau yn y Gofrestr Risg yn rhai parhaus, ond ystyrir bod y canlynol yn arbennig o berthnasol ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Oherwydd y cyfyngiadau ariannol rydym yn gweithio ynddynt (fel sefydliad y mae ei waith craidd yn cael ei ariannu gan ffïoedd cofrestru), mae'n hanfodol i ni reoli arian yn dda. Nid yw ein ffïoedd cofrestru wedi newid ers i ni gael ein sefydlu yn 2015 ac rydym yn ceisio eu cadw nhw mor isel â phosibl. Rydym yn ceisio taro cydbwysedd rhwng dal digon o gronfeydd wrth gefn i sicrhau ein cynaliadwyedd, gan ddarparu'r lefel uchaf o wasanaeth wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol. Rydym yn adolygu lefelau ffïoedd a chronfeydd wrth gefn rheoleiddwyr eraill yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein ffïoedd a'n cronfeydd wrth gefn ni yn gymesur â rhai cyrff tebyg. Trwy'r gwaith hwn, gallwn ddangos bod gennym rai o'r ffïoedd cofrestru mwyaf rhesymol yn y byd.
- Ym mis Chwefror 2023, pasiwyd gorchymyn diwygio yn y Senedd i gynnwys CGA yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig). Rydym yn cynnal trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â threfniadau ymarferoldeb a ffurfiol cymesur o ganlyniad, ac i sicrhau bod CGA yn aros yn annibynnol ar y llywodraeth.

- Rydym wrthi'n uwchraddio ein cronfa ddata cofrestru bresennol er mwyn darparu system hunanwasanaeth gynhwysfawr i fodloni anghenion cofrestreion, cyflogwyr a'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r prosiect yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y gwasanaeth a bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n brydlon ac o fewn y gyllideb.
- Mae materion seiberddiogelwch yn fygythiad byd-eang, ac mae sefydliadau'n agored i risg yn barhaus, ni waeth pa mor fawr yw'r busnes na pha fath o fusnes ydyw. Mae gennym ystod o gamau a mesurau diogelwch ar waith i sicrhau diogelwch ein rhwydwaith TG a'r data a gedwir ynddo. Mae'r rhain wedi cael eu gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn.





# Dadansoddiad o berfformiad

Roedd ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2022-23 yn amlinellu camau gweithredu a mesurau manwl ar gyfer pob un o'n hamcanion strategol. Neilltuir y cyfrifoldeb am gyflawni amcanion strategol i uwch swyddogion ac fe'i dirprwyir ymhellach i dimau, fel y bo'n briodol. Caiff cynnydd ei fonitro gan y Cyngor a'r uwch dîm rheoli trwy brosesau monitro misol, chwarterol a blynyddol. Rhoddir manylion ein cyflawniadau yn erbyn pob un o'r amcanion isod.

## Amcan 1: Bod yn rheoleiddiwr effeithiol sy'n gweithio er budd y cyhoedd a meithrin hyder yn y gweithlu addysg

### Cofrestru

Mae'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg (y Gofrestr) yn hanfodol i'n gwaith i sicrhau bod safonau uchel o broffesiynoldeb yn cael eu cynnal yn y gweithlu. Mae'n amddiffyn y cyhoedd trwy sicrhau mai dim ond y rhai sy'n cyrraedd a chynnal ein safonau all weithio mewn rolau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru.

Mae gennym y gofrestr fwyaf cynhwysfawr o weithwyr addysg proffesiynol yn y byd, sy'n cwmpasu saith grŵp o fewn ysgolion, AB, dysgu seiliedig ar waith a gwaith ieuenctid. Ar 31 Mawrth 2023, roedd dros 88,000 o ymarferwyr addysg wedi'u cofrestru, a gwnaethom brosesu 18,756 o geisiadau newydd i gofrestru eleni. Dyma ein nifer uchaf erioed o geisiadau i gofrestru mewn blwyddyn. O'r rhain, roedd y nifer fwyaf o geisiadau gan weithwyr cymorth dysgu mewn ysgol, sef 15,200 o geisiadau.

Ym mis Rhagfyr 2022, comisiynwyd gwaith i uwchraddio ein system cronfa ddata cofrestru. Bydd cryn dipyn o waith yn cael ei wneud drwy gydol 2023-24 a bydd y system well yn darparu system hunanwasanaeth gynhwysfawr i fodloni anghenion cofrestreion, cyflogwyr a'r cyhoedd o ran ymarferoldeb, hygyrchedd ac effeithlonrwydd.

88,748 o gofrestreion

7 categori cofrestru

18,756 o geisiadau newydd wedi'u prosesu

13.6% wedi'u cofrestru mewn mwy nag un categori

Rydym wedi gweithio'n helaeth gyda chyflogwyr drwy gydol y flwyddyn i sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol wrth benodi a chyflogi staff sydd wedi'u cofrestru â CGA. Mae'r Gofrestr gyhoeddus, sydd ar gael ar ein gwefan, yn galluogi cyflogwyr, aelodau'r cyhoedd ac eraill i wirio cofrestriad ymarferwyr addysg. Mae hyn yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddiogelu dysgwyr. Gwnaed mwy na 144,000 o wiriadau ar-lein gan gyflogwyr, cofrestreion a'r cyhoedd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 128,000 o wiriadau y llynedd.

Rydym wedi parhau â'n rhaglen o ymweliadau â phrifysgolion a cholegau AB, gan gynnal 27 o sesiynau rhithwir eleni. Mae'r rhain yn bwysig er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn deall y gofynion cyfreithiol i gofrestru gyda ni (os byddant yn penderfynu ymarfer yng Nghymru), a beth allant ei ddisgwyl gennym ni.

Rydym wedi cynnal sawl ymarfer eleni i wella cyflawnder y cofnodion ar y Gofrestr.

## Priodoldeb i ymarfer

Rydym yn ymgymryd â'n gwaith priodoldeb i ymarfer er budd y cyhoedd i ddiogelu dysgwyr a phobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a'r cyhoedd, ac i gynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg. Mae'n sicrhau mai dim ond y rhai sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau angenrheidiol sy'n gallu cofrestru a gweithio yn y proffesiynau addysg yng Nghymru.

Dechreuom weithredu argymhellion yn ystod y flwyddyn, yn dilyn adolygiad o'n prosesau yn 2021-22, i sicrhau bod ein prosesau'n parhau i fod yn addas i'r diben.

### Addasrwydd i gofrestru

Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd ddatgan ei hanes troseddol a disgyblu neu reoleiddiol yn rhan o'i gais am gofrestru, er mwyn sicrhau addasrwydd cofrestreion i ymarfer. Rydym wedi cwblhau cyfanswm o 186 o asesiadau lle y datganodd ymgeiswyr faterion penodol. Ym mhob achos, rydym wedi glynu wrth y graddfeydd amser a'r safonau a amlinellir yn ein gweithdrefnau cyhoeddedig.

**186** o geisiadau cofrestru yr aseswyd eu haddasrwydd

**71** o achosion priodoldeb i ymarfer wedi'u cwblhau

### Gwaith achos disgyblu

Mae gennym gyfrifoldeb statudol i ymchwilio i ac, os oes angen, gwrando ar achosion lle yr honnir ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu gollfarn am drosedd berthnasol.

Eleni, gwnaethom gwblhau 71 o achosion priodoldeb i ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys 46 gwrandawiad priodoldeb i ymarfer, 44 ohonynt ar-lein a dau wyneb yn wyneb.

### Gorchmynion atal dros dro interim

Mae gennym bwerau statudol i osod gorchmynion atal dros dro interim, sy'n dileu unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr dros dro tra'n disgwyl ymchwiliad lle mae 'angen cymdeithasol dybryd' i ni weithredu. Gwnaethom osod tri gorchymyn atal dros dro interim yn ystod y flwyddyn adrodd.

### Adroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer

Cyhoeddom ein Hadroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer ym mis Awst 2022. Mae'r adroddiad yn cynnwys data am y mathau o achosion rydym yn ymdrin â nhw (gan gynnwys cofrestreion a'r rhai sy'n gwneud cais am gofrestru), tueddiadau o un flwyddyn i'r llall, a data cryno am gofrestreion/ymgeiswyr. Mae hefyd yn amlygu gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn.

### Apeliadau sefydlu

Rydym yn gyfrifol am wrando ar apeliadau gan athrawon ysgol newydd gymhwyso sy'n methu asesiad yn erbyn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, ond sy'n anfodlon ar y penderfyniad. Ni dderbyniom unrhyw apeliadau eleni.

## Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

Mae'r Cod yn amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan ein cofrestreion, a bwriedir iddo lywio unrhyw ddyfarniadau a phenderfyniadau a wnânt. Mae hefyd yn rhoi gwybod i ddysgwyr a phobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid, cyflogwyr a'r cyhoedd am y safonau y gallant eu disgwyl gan ymarferydd cofrestredig.

Yn ôl deddfwriaeth, mae'n ofynnol i ni adolygu'r Cod bob tair blynedd. Cwblhawyd adolygiad 2022 o'r Cod ar ôl ymgynghori â chofrestreion, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, a chael adborth ganddynt. Cyhoeddom ein Cod diwygiedig ar 1 Medi 2022. Roedd y diwygiadau a wnaed yn arwynebol yn bennaf, neu i roi eglurhad pellach. Mae'r Cod wedi cael ei lawrlwytho 6,000 o weithiau ers iddo gael ei gyhoeddi.

Ar ôl ei gyhoeddi, gweithiom gyda Parentkind i gyhoeddi canllaw diwygiedig i helpu rhieni a gwarcheidwaid i chwarae rôl fwy gweithredol yn addysg eu plant Mae'r canllaw'n rhoi gwybodaeth a chyngor pwysig, gan gynnwys y gofynion ar ymarferydd addysg cofrestredig, a'r hyn y gall ac y dylai rhieni a gwarcheidwaid ei wneud os oes ganddynt bryder.

Gallai methiant i gydymffurfio â'r Cod godi amheuon ynglŷn â chofrestriad unigolyn.

# Mewn ffocws



## Cofrestru a rheoleiddio er budd y cyhoedd

Rydym yn amddiffyn y cyhoedd trwy sicrhau bod safonau uchel o broffesiynoldeb yn cael eu bodloni a'u cynnal o fewn y gweithlu addysg. Eleni, rydym wedi:

- cynnal y gofrestr gyhoeddus fwyaf o unrhyw broffesiwn yng Nghymru, a'r gofrestr fwyaf cynhwysfawr o weithwyr addysg proffesiynol yn y byd, gyda dros 88,000 o ymarferwyr wedi'u cofrestru, sef ein nifer uchaf hyd yma
- cefnogi dros 144,000 o wiriadau ar-lein o'r Gofrestr gan gyflogwyr, cofrestreion a'r cyhoedd
- parhau i weithio i ymestyn y rhestr o ymarferwyr addysg y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda ni
- adolygu'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol i sicrhau ei berthnasedd a'i effeithiolrwydd
- cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer, sy'n rhoi sicrwydd a thryloywder ynglŷn â'n gwaith rheoleiddio

## Rhoi cyngor ac arweiniad i hyrwyddo safonau uchel

Rydym yn ceisio cynorthwyo ein cofrestreion i ddeall a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

- rydym yn cynnig cyfres o ganllawiau arfer da, a luniwyd i ategu'r Cod a helpu i arwain dyfarniadau a phenderfyniadau proffesiynol dydd i ddydd cofrestreion. Eleni, cyhoeddom ddau ganllaw newydd, un ar gyfer arweinwyr addysg ac un i gefnogi iechyd meddwl a lles cofrestreion (ar y cyd â Education Support)
- rydym hefyd yn darparu cyflwyniadau a sesiynau hyfforddi rheolaidd sy'n canolbwyntio ar y Cod, yn cynnwys pynciau fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol a moeseg a chyfrifoldebau proffesiynol
- rydym yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n cyflogi ein cofrestreion. Eleni, fe wnaethom roi sesiynau wedi'u teilwra i'r holl gyflogwyr, yn ogystal â chyflwyniadau codi ymwybyddiaeth ehangach a roddwyd i randdeiliaid perthnasol.

Os hoffech ein gwahodd i gyflwyno sesiwn i'ch sefydliad, cysylltwch â ni.

## SAC a sefydlu statudol

Eleni, fe wnaethom roi tystysgrifau i 1,286 o bobl a gyflawnodd statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru. Gwnaethom hefyd asesu 37 o geisiadau am gydnabyddiaeth SAC gan ymgeiswyr o'r tu allan i Gymru, a gwnaed 36 dyfarniad. Fe wnaethom roi 1,335 o dystysgrifau i athrawon ysgol a gyflawnodd eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus.

## Achredu AGA

Mae'n rhaid i'r holl raglenni AGA a gynigir gan bartneriaethau yng Nghymru gael eu hachredu gan ein Bwrdd Achredu AGA (y bwrdd). Wrth benderfynu p'un ai rhoi achrediad, mae'r bwrdd yn ystyried sut bydd y rhaglen yn codi ansawdd y ddarpariaeth, ac yn denu ymgeiswyr â'r sgiliau, y cymwysterau a'r galluoedd iawn i ddechrau gyrfa addysgu, yn unol â'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru (y Meini Prawf). Gwnaethom asesu un rhaglen newydd eleni, na lwyddodd i fodloni'r Meini Prawf ar gyfer achredu.

Mae'r bwrdd hefyd yn monitro rhaglenni presennol i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf. Cynhaliodd y bwrdd chwe ymweliad monitro (yn cwmpasu 12 rhaglen) yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd yr ymweliadau monitro hyn yn unol â'n canllawiau monitro interim (sydd ar waith i gydnabod yr heriau a wynebodd bartneriaethau yn dilyn y pandemig COVID-19). Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a phartneriaethau AGA i lunio system fonitro genedlaethol ar y cyd, ac i sicrhau bod trefniadau monitro CGA ac arolygiadau Estyn yn ategu ei gilydd wth gefnogi partneriaethau. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn 2023-24.

Mae CGA wedi gweithio'n agos gyda phartneriaethau AGA a Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn i roi cyngor a chymorth parhaus. Ym mis Mawrth 2023, cynhaliom ein digwyddiad blynyddol ar gyfer partneriaethau AGA yn canolbwyntio ar rannu syniadau ac arferion newydd. Yn y digwyddiad, rhannodd pob partneriaeth AGA eu profiadau o bynciau fel mentora effeithiol, cefnogi gwrth-hiliaeth mewn ysgolion a datblygu myfyrio ar waith.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru, i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r rownd gyntaf o achredu a datblygiadau yng nghyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chyflwyno ymateb ffurfiol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig, rhoddom gyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru trwy fod yn aelod o'r grŵp llywio a oruchwyliodd yr adolygiad. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r meini prawf diwygiedig yn ddiweddarach eleni.

### Dyrannu niferoedd derbyn AGA

Ym mis Tachwedd 2022, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, dyrannom niferoedd derbyn AGA i bartneriaethau AGA ar gyfer rhaglenni sy'n dechrau ym mis Medi 2023. Gan gydnabod prinder athrawon penodol yng Nghymru, rhoddom ofynion penodol i bartneriaethau hefyd ar gyfer recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg ac athrawon o gymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Byddwn yn parhau i fonitro recriwtio i raglenni yn 2023-24 ac yn adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru bob mis.

## Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Ers mis Ionawr 2020, ni sydd wedi bod yn gyfrifol am ddarparu a datblygu'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (y Marc Ansawdd), mewn partneriaeth ag ETS Cymru. Roedd y contract tan fis Ionawr 2023 yn wreiddiol, ond derbyniom wahoddiad gan Lywodraeth Cymru yn hwyr ym mis Tachwedd 2022 i ymestyn y contract presennol tan fis Ionawr 2024.

Yn 2022-23, fe wnaethom asesu a dyfarnu'r Marc Ansawdd i 19 o sefydliadau (deg efydd, chwe arian, tri aur). Yn gyfan gwbl, mae 30 sefydliad bellach yn dal y Marc Ansawdd.

Fe wnaethom ymgysylltu'n helaeth â'r sector, a darparu cyngor ac arweiniad i sefydliadau ac unigolion sy'n ystyried gwneud cais am y Marc Ansawdd. Rydym wedi datblygu a darparu hyfforddiant ar y Marc Ansawdd i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid, gan gynnwys cynnal diwrnod datblygu ar gyfer partneriaid, deiliaid y Marc Ansawdd ac aseswyr.

Rydym hefyd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r Marc Ansawdd yn ehangach, gan gynnwys ymhlith pobl ifanc. Eleni, dechreuom ddatblygu cyflwyniad i'r Marc Ansawdd sy'n 'gyfeillgar i bobl ifanc', y bwriadwn ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

## Gwella safonau mewn addysgu a dysgu

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ar fentrau i sicrhau ansawdd a gwella safonau ym maes addysgu a dysgu. Eleni, rydym wedi arwain nifer o brosiectau i helpu i gefnogi a gwella proffesiynoldeb y gweithlu ôl-16 yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr i lunio safonau proffesiynol newydd ar y cyd ar gyfer arweinwyr addysg bellach (AB) a dysgu seiliedig ar waith (DSW), ac ymarferwyr addysg oedolion. Mae tair set newydd o safonau proffesiynol wedi cael eu llunio, ac rydym bellach yn ymgynghori ar y rhain o fewn y sectorau. Disgwyliwn gyflwyno'r drafftiau terfynol i Lywodraeth Cymru yn haf 2023.

Rydym wedi parhau i weithio i ddatblygu cyfres o 'silwetau' sy'n amlinellu sut olwg allai fod ar ddeiliaid swydd delfrydol (sy'n gweithio mewn rolau gwahanol mewn AB a DSW), o ran eu sgiliau, eu profiad a'u cymwysterau. Eleni, gwnaethom ymgynghori'n ehangach â'r sectorau AB a dysgu seiliedig ar waith i fireinio'r silwetau, a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r rolau perthnasol yn iawn. Gwnaethom gyflwyno'r drafftiau diwygiedig i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023, a disgwyliwn iddynt gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Gwnaethom hefyd barhau i weithio i asesu'r galw am lwybr TAR/SAC sy'n caniatáu i unigolyn addysgu mewn ysgolion ac AB, a rhaglen drosi sy'n caniatáu i unigolyn â TAR (AB) addysgu mewn ysgolion. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu'n gynhwysfawr trwy gyfweliadau â rhanddeiliaid a grwpiau ffocws gydag ymarferwyr a myfyrwyr i lywio argymhellion i Lywodraeth Cymru.

## Materion deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ddwywaith eleni ynglŷn â chynigion i ymestyn y rhestr o ymarferwyr addysg y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda ni. Rydym wedi dadlau dros y newidiadau hyn ers tro, a fydd yn helpu i wella hyder a ffydd y cyhoedd yn y gweithlu addysg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori y bydd deddfwriaeth newydd yn dod i rym ym mis Mai 2023. Bydd hyn yn mynnu bod athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion o ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol, a gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys cyflogedig (gyda chofrestriad dros dro ar gyfer y rhai sy'n gweithio tuag at statws cymwysedig), mewn unrhyw leoliad yng Nghymru, yn cofrestru gyda CGA. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau proses gofrestru gyflym ac effeithlon ar gyfer yr ymarferwyr hyn.

Yn rhan o'n hymateb i'r ymgynghoriad, tynnom sylw Llywodraeth Cymru at faterion posibl y gallai'r ddeddfwriaeth newydd eu hachosi o ran cyfansoddiad ein paneli priodoldeb i ymarfer. Croesawom ymateb Llywodraeth Cymru lle yr ymrwymodd i weithio gyda ni i fynd i'r afael â'r materion hyn.

# Amcan 2: Cefnogi proffesiynoldeb a dysgu o fewn y gweithlu addysg

## Dysgu proffesiynol

### Sefydlu

Rydym yn gweinyddu trefniadau cyllido, cofnodi ac olrhain ar gyfer sefydlu athrawon ysgol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol, mentoriaid, athrawon newydd gymhwyso (ANG) a Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynorthwyo dros 2,700 o athrawon newydd, dros 1,185 o fentoriaid sefydlu, dros 470 o wirwyr allanol a dros 890 o ysgolion yn rhan o'r rhaglen sefydlu
- talu dros £2.71 miliwn o daliadau cyllido ar gyfer sefydlu i ysgolion, sy'n cyfateb i 2,684 o daliadau ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn sefydlu
- rhyddhau dros £2.89 miliwn i'r consortia rhanbarthol i ddarparu rôl y gwiriwr allanol
- darparu cymorth gweinyddol wedi'i deilwra i bob un o'r consortia rhanbarthol (gan gynnwys arwain wrth baru mentoriaid allanol ag athrawon sy'n cyflawni sefydlu mewn dau o'r rhanbarthau)
- darparu gwasanaethau ar-lein, cyfleusterau desg gymorth ac arddangosiadau i bob ymarferydd cofrestredig sy'n cael at ei broffil sefydlu, gwirwyr allanol, y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion


### Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)

Parhaom i ddatblygu a chynnal e-bortffolio cenedlaethol (PDP) ar gyfer ein cofrestreion. Ers ei lansio ym mis Medi 2016, mae mwy na 38,000 o ymarferwyr wedi creu eu PDP ac yn ei ddefnyddio i gynllunio, cofnodi a myfyrio ar eu dysgu proffesiynol a rhyngweithio â'u safonau proffesiynol. Rydym yn falch hefyd o adrodd am gynnydd o fwy na 6,500 o gyfrifon ers 1 Ebrill 2022.

Rydym wedi parhau i gynnig hyfforddiant a chymorth ar-lein trwy gydol y flwyddyn, gan helpu cofrestreion i ddefnyddio'r PDP. Hefyd, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gweithlyfrau pwrpasol yn y PDP ar gyfer y rhaglen Gradd Meistr mewn Addysg yng Nghymru, y rhaglen Anghenion Dysgu Ychwanegol genedlaethol, Prosiect Ymholiad Proffesiynol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL).



# Mewn ffocws



## Defnyddio'r PDP i gefnogi dysgu proffesiynol

Nod y PDP yw helpu cofrestreion i fyfyrio ar eu hymarfer. Mae hyn yn caniatáu iddynt aros a meddwl am eu profiadau er mwyn cael gwerth ohonynt, a'u defnyddio i lywio eu dysgu, eu datblygiad a'u hymarfer yn y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i helpu i ymsefydlu diwylliant o fyfyrio yn y gweithlu addysg trwy'r PDP. Rydym wedi cynnwys y PDP a'i ddatblygu ymhellach i gefnogi llawer o raglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan lunio templedi pwrpasol i arwain defnyddwyr trwy'r broses fyfyrio ac wedi'u teilwra i anghenion y sefydliad penodol neu'r rhaglen benodol. Mae'r templedi hyn yn cynnwys cyfres o gwestiynau neu anogion, sy'n caniatáu i'r defnyddiwr adolygu effaith ei brofiadau neu ddysgu o'i ymarfer.

Er mwyn helpu cofrestreion i gael y mwyaf o'u PDP, cynhaliom weminar ym mis Hydref 2022 a arddangosodd y PDP, gan roi canllaw gam wrth gam i ddefnyddwyr ar sut i gyfleu a mapio eu profiadau dysgu.

Gallwch wylio'r sesiwn ar ein sianel YouTube.

Er mwyn sicrhau bod y PDP yn parhau i fod yn allweddol i'n cofrestreion wrth gefnogi eu dysgu proffesiynol, rydym wedi gweithio i ailwampio a datblygu'r brand PDP, a fydd yn cael ei lansio'n gynnar yn 2023-24.

### Digwyddiadau dysgu proffesiynol

Rydym yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys siaradwyr o'r radd flaenaf ac yn trafod ystod eang o bynciau.



# Mewn ffocws

## Siarad yn Broffesiynol

Ym mis Ionawr 2023, roeddem yn falch iawn o groesawu'r arbenigwr byd-enwog ar ddiwygio addysgol, yr Athro Michael Fullan, i gyflwyno ein darlith Siarad yn Broffesiynol flynyddol.

Yn ei brif araith, trafododd Michael ganfyddiadau ei waith ymchwil arloesol a gynhaliwyd mewn partneriaeth agos ag arweinwyr addysg ar draws y byd. Drwy gydol y digwyddiad, archwiliodd y cysyniad bod plant a phobl ifanc yn 'ysgogwyr newid ar gyfer y dyfodol', a sut gall arweinwyr fod yn effeithiol mewn cyfnodau cymhleth. Rhoddodd enghreifftiau hefyd o newid llwyddiannus ar lefel ysgol a chymuned, ynghyd â goblygiadau posibl i bob arweinydd eu hystyried.

Roedd dros 300 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, a oedd hefyd yn cynnwys sesiwn holi ac ateb fywiog a gynhaliwyd gan yr ymchwilydd a'r awdur rhyngwladol o fri, yr Athro Alma Harris.

Mae'r fideo o'r digwyddiad ar gael bellach i'w weld ar ein sianel YouTube.

Yn Ebrill 2022, cynhaliodd yr Athro nodedig ym Mhrifysgol Califfornia, Berkeley, Ronald E Dahl, ddigwyddiad awr o hyd yn crynhoi'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o astudiaethau gwyddonol ynglŷn â datblygiad y glasoed. Ym Mehefin 2022, dathlom Wythnos Gwaith Ieuenctid gyda digwyddiad arbennig yn arddangos y cyfraniad amhrisiadwy y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud at fywydau pobl ifanc yn y sector addysg cyfan.

Gwnaethom hefyd weithio gyda'n sefydliadau partner drwy gydol y flwyddyn i gynnig nifer o weminarau. Ym Mehefin, cynhaliom ddigwyddiad mewn partneriaeth â Education Support a oedd yn edrych ar strategaethau ymarferol i gefnogi iechyd meddwl a lles. Yn Nhachwedd 2022, gweithiom gyda Parentkind i edrych ar ffyrdd o helpu i wella'r berthynas â rhieni a chynyddu cyfranogiad rhieni.

Parhaom â'n cyfres o 'weminarau min nos' a luniwyd i daflu goleuni ar rai o'r pynciau a godwyd yn ein digwyddiad 'Symud o ymarfer di-hiliol i wrth-hiliol' yn 2021. Ym Mehefin 2022, clywsom gan sawl ysgol a rannodd eu profiadau o weithio tuag at fod yn wrth-hiliol. Croesawodd ein sesiwn olaf yn Nhachwedd 2022 yr ymgyrchydd cydraddoldeb hiliol, Sunil Patel, a drafododd bwysigrwydd adrodd am hiliaeth a mynd i'r afael â chynhwysiant.

## Cefnogi ymchwil gan ymarferwyr

Yn unol â'n strategaeth ymchwil, rydym wedi parhau i hyrwyddo a chefnogi ymgysylltu ag ymchwil ar draws ein grwpiau o gofrestreion.

Rydym yn cynnig ystod o adnoddau ar-lein i gofrestreion er mwyn annog ymchwil agos i ymarfer, gan gynnwys mynediad am ddim at becyn EBSCO o gyfnodolion ac e-lyfrau academaidd. Gwnaethom ddefnyddio Meddwl Mawr, ein clwb llyfrau a chyfnodolion, i godi ymwybyddiaeth o EBSCO ac annog cofrestreion i droi at yr adnodd rhad ac am ddim hwn. Yn ystod 2022-23, gwnaethom argymell 16 o lyfrau a thair erthygl gyfnodolyn yn ymdrin â phynciau fel lles, cefnogi dysgwyr â dyslecsia ac addysg deg. Gwnaethom hefyd rannu argymhelliad gwestai gan yr Athro John Furlong, ac ymddangos ar y podlediad 'Emma and Tom Talk Teaching'.

### Cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE)

Ar ran Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r broses o ymgorffori NSERE. Drwy gydol y flwyddyn, mae hyn wedi canolbwyntio ar sefydlu seilwaith NSERE trwy Fwrdd Goruchwylio a Gwireddu Traws-sector NSERE, a grŵp Rhaglen Ymchwil Addysg Dechrau Gyrfa NSERE (a adwaenir bellach fel Cymrodoriaeth Ymchwil Addysg Cymru).

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gynnal a chynyddu ein proffil ymhlith cofrestreion, darpar gofrestreion, cyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill, gan gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n rôl a'n cylch gorchwyl trwy greu cyfathrebiadau cyson a chydlynol.

Gwnaethom ddarparu sesiynau hyfforddiant a chymorth a chyflwyniadau ar-lein, ac roedd galw uchel am sesiynau ar bynciau fel y Cod, a sut y dylai ac na ddylai cofrestreion ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd dros 340 o sesiynau yn 2022-23.

Yn ystod y flwyddyn, mae ein Prif Weithredwr wedi rhoi cyflwyniadau mewn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel ac wedi gweithio'n rhyngwladol.

Rydym yn cyfathrebu'n uniongyrchol â'n cofrestreion a rhanddeiliaid trwy ein e-gylchlythyrau rheolaidd.

Rydym wedi datblygu ein gwefan drwy gydol y flwyddyn, gan gyflwyno deunydd newydd yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys dau animeiddiad, un yn rhoi trosolwg cyffredinol o CGA a'r ail yn hyrwyddo CGA fel lle i weithio. Mae hyn wedi ein helpu i ddenu dros 1,775,397 o ymweliadau â'n gwefan (ein ffigur blynyddol uchaf hyd yma). Rydym wedi parhau i ddefnyddio Twitter a LinkedIn i hyrwyddo negeseuon

allweddol i'n cofrestreion a rhanddeiliaid. Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom lansio tudalen Facebook CGA i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Cynhaliom adolygiad o'n gwefan eleni, ac rydym wedi amlygu nifer o welliannau mewn meysydd fel hygyrchedd, taith y defnyddiwr, brandio, a gosodiad. Rydym wedi dechrau gweithio ar ailddylunio ein gwefan yn llwyr, ac edrychwn ymlaen at ei lansio yn y gwanwyn/yr haf 2023.

Cawsom sylw helaeth yn y cyfryngau, gyda diddordeb arbennig yn ein gwaith priodoldeb i ymarfer. Fodd bynnag, roedd gan y wasg ddiddordeb mewn pynciau eraill hefyd fel y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid, canlyniadau ein harolwg gweithlu 2021 a'n gwaith i wella amrywiaeth y gweithlu addysg.

**18,839** o alwadau ffôn wedi'u derbyn.

Dros **340** o gyflwyniadau a sesiynau cymorth wedi'u darparu.

**1,775,397** o ymweliadau â thudalennau ar ein gwefan.

**8,619** fo ddilynwyr ar Twitter.

**4** blog gwadd wedi'u cyhoeddi gan bobl flaenllaw ym myd addysg.

**4** cylchlythyr rhanddeiliaid wedi'u cyhoeddi.

**4** cylchlythyr cofrestreion wedi'u cyhoeddi.

# Amcan 3: Ceisio llunio a dylanwadu ar bolisi addysgol yng Nghymru er budd y gweithlu addysg

## Cefnogi polisi addysgol

Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at ddatblygu polisi er budd ein cofrestreion, a dylanwadu arno.

Mae'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r uwch swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â phobl flaenllaw ym myd addysg yng Nghymru, gan gynnwys Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr addysg pob un o'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn Senedd Cymru. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag ystod o sefydliadau fel undebau llafur, y consortia rhanbarthol, cyflogwyr, Cymwysterau Cymru, yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, Estyn, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

Rydym wedi cyfranogi mewn a chyfrannu at dros 50 o grwpiau cenedlaethol â phroffil uchel sydd â chylchoedd gwaith yn ymestyn ar draws ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a gwaith ieuenctid. Mae'r rhain wedi ymdrin â materion allweddol y gweithlu fel llwyth gwaith, recriwtio a chadw, dysgu proffesiynol, lles ac ymgysylltu ag ymchwil.

Rydym yn ymateb yn rheolaidd i ymgynghoriadau i eirioli ar ran y gweithlu addysg a defnyddiwn ein gwybodaeth a'n harbenigedd i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y system addysg yng Nghymru. Yn 2022-23, ymatebom i chwe ymgynghoriad ffurfiol a 19 cais am dystiolaeth neu gyngor. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar gategorïau cofrestru ar gyfer CGA, sesiwn tystiolaeth lafar ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor y Senedd ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg gyda phwyslais penodol ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a thystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer adolygiad strategol Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) o gyflog, telerau ac amodau athrawon yng Nghymru.

Gofynnir fwyfwy i CGA gyfrannu at ddatblygiad polisi ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel ryngwladol. Yn ystod y flwyddyn, fe'n gwahoddwyd i roi cyflwyniad i'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar broffesiynoldeb athrawon ac mewn ystod o fforymau rhyngwladol.

## Cyngor polisi wedi'i seilio ar dystiolaeth

### Data a dadansoddi

Mae ein Cofrestr yn cynnig cyfoeth o wybodaeth i lywio a dylanwadu ar bolisi a chynllunio'r gweithlu yng Nghymru. Rydym yn ymrwymo'n gadarn i rannu ein data a'r wybodaeth a gawn ohono gyda'n cofrestreion a'n partneriaid.

Ym mis Medi 2022, cyhoeddasom Ystadegau Blynyddol Gweithlu Addysg Cymru 2022. Mae'n manylu ar gyfansoddiad y gweithlu ymarferwyr cofrestredig ar draws ysgolion, AB, dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Gwnaethom hefyd gyhoeddi amrywiaeth o ddadansoddiadau data yn ymdrin â materion fel y gweithlu cyflenwi, arweinwyr ysgolion ac athrawon newydd gymhwyso.

Mae'r data a ddarperir gan ein Cofrestr hefyd yn rhoi gwybodaeth werthfawr i helpu i ddeall yr heriau recriwtio a chadw ym maes addysg yng Nghymru. Gallwn ddefnyddio hyn i roi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Rydym wedi parhau i weld galw uchel am ein data ac wedi darparu pecynnau data ar raddfa fawr i helpu Llywodraeth Cymru ac eraill fel CACAC a chonsortia rhanbarthol. Mae ein data'n parhau i gael ei ddefnyddio'n genedlaethol i lywio a dylanwadu ar ddatblygu polisi a chynllunio'r gweithlu, ac fe'i dyfynnir a chyfeirir ato'n aml yn y Senedd, gan undebau llafur a'r cyfryngau.

### Yr Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

Fe'n comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, a lansiwyd ym mis Mawrth 2023. Ers cyhoeddi canlyniadau ein harolwg gweithlu 2021, mae'r grŵp llywio llwyth gwaith cenedlaethol (Undebau Llafur, Colegau Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cyd), wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Lansiwyd arolwg 2023 i asesu'r cynnydd a wnaed hyd yma, a mesur faint a gyflawnwyd. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ddiweddarach yn 2023.

### Ymchwil a pholisi

Eleni, fe'n comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio datblygu llwybr prentisiaeth neu gymwysterau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 fel llwybr tuag at addysgu (gyda phwyslais penodol ar gyfrwng Cymraeg). Roedd hyn o ganlyniad i ymrwymiad yng Nghynllun y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd Llywodraeth Cymru (cam gweithredu 1 o dan amcan 1.3). Roedd ein gwaith ymchwil, a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o ymchwil bwrdd gwaith, cyfweliadau a grwpiau ffocws, wedi llywio cyfres o argymhellion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru.

## Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a lles

Rydym yn gwybod bod proffesiwn addysg amrywiol yn hanfodol i adeiladu amgylchedd cynhwysol i ymarferwyr a dysgwyr. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y gweithlu addysg. Mae hyn wedi cynnwys:

- dwy weminar min nos ar sut i siarad â'ch staff a dysgwyr am hil, a phwysigrwydd adrodd am hiliaeth a mynd i'r afael â chynhwysiant
- canolbwyntio argymhellion Meddwl Mawr mis Chwefror 2023 ar addysg deg
- gweithio'n agos gyda DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol), a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu Cynhadledd Arweinyddiaeth Genedlaethol, a gynhelir ym mis Mehefin 2023

Rydym hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles cofrestreion, ac amlygu ffyrdd o'u cefnogi. Eleni, rydym wedi:

- datblygu canllaw arfer da newydd i gefnogi iechyd meddwl a lles cofrestreion, ar y cyd â Chymorth Addysg
- canolbwyntio argymhellion Meddwl Mawr mis Mehefin 2022 a mis Ionawr 2023 ar les
- cynnal digwyddiad mewn partneriaeth â Education Support a oedd yn edrych ar strategaethau ymarferol i gefnogi iechyd meddwl a lles

## Hyrwyddo gyrfaoedd ym myd addysg

Drwy gydol y flwyddyn adrodd, rydym wedi parhau i ddatblygu brand a phlatfform Addysgwyr Cymru i gefnogi recriwtio a dilyniant yn y proffesiynau addysg.

Rydym wedi parhau i lenwi'r wefan â chynnwys newydd a diddorol, ac rydym wedi cael 777,812 o ymwelwyr â hi. Rydym wedi gwella porth swyddi Addysgwyr Cymru i helpu cyflogwyr i hysbysebu swyddi gwag a'i gwneud yn haws i addysgwyr (newydd a phresennol) ddod o hyd i'w rôl nesaf. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar ddatblygu offer rhyngweithiol newydd i gefnogi'r sectorau gwaith ieuenctid ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO), a fydd yn cael eu lansio yn 2023-24.

## Mewn ffocws



### Cefnogi recriwtio a chadw trwy ein gwasanaeth eirioli

Ochr yn ochr â datblygu gwefan Addysgwyr Cymru, rydym wedi ymsefydlu ein gwasanaeth recriwtio ac eiriolaeth, sy'n cynnig cymorth i unigolion, cyflogwyr a sefydliadau addysg. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i roi cynlluniau gweithredu penodol ar waith ar gyfer meysydd recriwtio blaenoriaethol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi partneriaethau AGA i roi cynlluniau penodol ar waith i recriwtio i bynciau blaenoriaethol, ac i recriwtio addysgwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac iaith Gymraeg.

Eleni, mae ein swyddogion recriwtio a chymorth wedi mynychu dros 200 o ddigwyddiadau ac ymgysylltu â miloedd o unigolion sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes addysg.

Oes gennych chi ymholiad ynglŷn â gweithio ym maes addysg yng Nghymru? Cysylltwch â thîm Addysgwyr Cymru.

ADDYSGWYR CYMRU
EDUCATORS WALES

**777,812** o ymwelwyr â gwefan Addysgwyr Cymru.

**2,234** o swyddi gwag wedi'u postio ar y porth swyddi.

**622** o ymholiadau neu geisiadau am gyngor.

**221** o ddigwyddiadau recriwtio wedi'u mynychu.

**144** o arddangosiadau o'r platfform i sefydliadau a chyflogwyr.

## Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC)

Fel yr ysgrifenyddiaeth annibynnol i CACAC, chwaraeom rôl allweddol wrth alluogi CACAC i gyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion ynglŷn â chyflogau yn llwyddiannus i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Mai 2022.

Gwnaethom hefyd gynorthwyo CACAC i gynhyrchu adroddiad ar athrawon cyflenwi, a gyflwynwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Ebrill 2023, ac i ddechrau gwaith ar ei adolygiad strategol yn effeithiol, a ddisgwylir yn ddiweddarach yn 2023.

# Amcan 4: Bod yn sefydliad gwydn, galluog a chynaliadwy yn ariannol, sy'n cynnig gwerth am arian i gofrestreion

## Cyllid

Cyflwynwyd ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon blynyddol gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf 2022. Cawsom farn archwilio ddiamod. Ar gyfer pob un o'r pum adolygiad archwilio mewnol a gwblhawyd yn 2022-23, derbyniom y farn archwilio uchaf o sicrwydd sylweddol ac ni wnaed unrhyw argymhellion.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, adroddom warged o £247,000 (gwarged o £466,000 yn 2021-22) a chyfanswm asedau net o £5,535,000 (£5,296,000 ar 31 Mawrth 2022).

Rydym hefyd wedi cynnal digon o gronfeydd ariannol wrth gefn i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw risgiau a all godi o ddigwyddiadau annisgwyl.

### Gwasanaethau cost-effeithiol

Gan fod ein swyddogaethau craidd, sef cofrestru a rheoleiddio, yn cael eu hariannu gan ffïoedd cofrestru, mae'n hanfodol nad ydym yn gwario mwy na'n hincwm a'n bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon. Rydym yn ceisio cadw ffïoedd cofrestru mor isel â phosibl, gan ddarparu'r lefel uchaf o wasanaeth ar yr un pryd wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol.

Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i'n seilwaith TG a'n cyfleusterau i sicrhau ein bod yn cynnig gwerth am arian ar gyfer y ffïoedd blynyddol a delir gan ein cofrestreion. Er enghraifft, mae 99% o geisiadau cofrestru'n cael eu gwneud ar-lein bellach, ac mae mwyafrif ein gwrandawiadau priodoldeb i ymarfer ac asesiadau achredu yn cael eu cynnal ar-lein erbyn hyn.

## Diogelwch TG

Mae gennym fecanweithiau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch ein rhwydwaith TG a'r data a gedwir ynddo. Cyflawnom ardystiad Cyber Essentials ym mis Mai 2022, a chynhaliom wiriadau cydymffurfio PCI yn chwarterol. Rydym yn darparu hyfforddiant seiberddiogelwch ar-lein i'n holl staff a chynhaliom brofion gwe-rwydo rheolaidd i gynnal ymwybyddiaeth staff o faterion seiber.

## Cyfrifoldebau deddfwriaethol

Ym Mawrth 2023, roedd ein trefniadau cydymffurfio rheoleiddiol (gan gynnwys Rhyddid Gwybodaeth, Safonau'r Gymraeg a dyletswyddau yn ymwneud â chydraddoldeb a bioamrywiaeth) yn destun archwiliad mewnol. Cawsom sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

### Diogelu data

Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith gennym i fonitro diogelwch data a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion diogelu data. Mae 'hyrwyddwyr data' o fewn pob tîm wedi cynnig cyngor ac arweiniad o ddydd i ddydd i gydweithwyr a darperir hyfforddiant i'r holl staff, aelodau'r Cyngor a phanelwyr.

Yn 2022-23, ymatebom i naw cais am fynediad at ddata gan y testun a naw cais rhyddid gwybodaeth.

### Y Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i'r iaith Gymraeg ac yn falch o weithredu fel sefydliad dwyieithog, sy'n cynnig gwasanaethau i gofrestreion yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â 148 o Safonau'r Gymraeg, sy'n ymdrin â darparu gwasanaeth, materion gweithredol, llunio polisïau, a chadw cofnodion. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

Cyhoeddom ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2022, a oedd yn amlinellu ein hymrwymiad a'n cydymffurfiaeth â'r safonau.

### Cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at gynhwysiant a chydraddoldeb o fewn y sector ac i sicrhau ein bod ni, fel cyflogwyr, yn hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu sut byddwn yn gweithio tuag at y nod o gyflawni cyfle cyfartal, o fewn ein sefydliad ac ar draws y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru.

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb sy'n adolygu ein cynnydd yn erbyn yr amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## Ein pobl

Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac mae ein hagweddau at recriwtio, datblygu a dyrchafu staff wedi hen ennill eu plwyf. Mae prosesau recriwtio'n cael eu monitro'n barhaus i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chyfrifoldebau cydraddoldeb.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi caniatáu i ni weld manteision gweithio hybrid yn y swyddfa a gartref. O ganlyniad i hyn, cyflwynom bolisi gweithio hybrid newydd yn Chwefror 2023. Datblygwyd y polisi mewn ymgynghoriad â staff, trwy ein fforwm cyflogeion, a sefydlodd ddisgwyliad o weithio yn y swyddfa am dri diwrnod o leiaf. Mae hyn yn helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol a chydweithio ar draws y sefydliad, ar yr un pryd â chefnogi staff i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

### Datblygiad staff

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein prif ased. I'r perwyl hwnnw, rydym yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'w galluogi i ffynnu. Mae gennym raglen hyfforddi staff gynhwysfawr, yn unol ag amcanion sefydliadol. Yn ystod 2022-23, cynaliasom sesiynau ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a rhagfarn ddiarwybod. Mae aelodau staff unigol yn gallu gofyn am hyfforddiant hefyd yn rhan o'r broses adolygu perfformiad a datblygiad.

### Lles staff

Ein nod yw creu amgylchedd gwaith a diwylliant gwaith sy'n hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol cadarnhaol.



## Mewn ffocws

### Cefnogi lles staff

Ein nod yw bod yn sefydliad agored a chefnogol lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu siarad am eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae staff yn cael cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr, a chynhelir cyfarfodydd misol i'r holl staff er mwyn rhoi'r diweddaraf iddynt am ddatblygiadau ledled y sefydliad.

Rydym yn darparu mynediad am ddim at y Llinell Gymorth i Gyflogeion, sy'n caniatáu i staff gael cyngor cyfrinachol ar amrywiaeth o faterion. Rydym wedi rhannu gwybodaeth am weminarau lles dyddiol rhad ac am ddim gan Care First gyda staff yn wythnosol. Mae pedwar cynorthwy-ydd cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig ar gael i staff ar draws y sefydliad hefyd.

Eleni, lansiom ein rhaglen les newydd. Drwy gydol y flwyddyn, mae staff wedi ymgysylltu ag ystod o weithgareddau, gan gynnwys:

- diwrnod Amser i Siarad
- cyflwyniad i ffitrwydd, dan arweiniad un o'n haelodau staff
- sesiwn ymwybyddiaeth o'r menopos
- clwb paentio
- 'Tea with a Twist' gyda Huggle Pets

Mae'r adborth gan staff sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae lles yn eitem sefydlog ar yr agenda yn ein Fforwm Cyflogeion a, thrwy'r fforwm, mae staff wedi awgrymu amrywiaeth o syniadau ar gyfer pynciau a gweithgareddau, sydd wedi cael eu hymgorffori yn ein rhaglen ar gyfer 2023-24.

## Cefnogi aelodau

Gwneir penodiadau i'r Cyngor bob pedair blynedd, drwy broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Daeth cyfnod presennol aelodau Cyngor CGA yn eu swydd i ben ar 31 Mawrth 2023, gyda chwe aelod yn parhau am dymor arall o bedair blynedd. Yn dilyn y broses penodiadau cyhoeddus, cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg chwe phenodiad newydd i'r Cyngor, a fydd yn dechrau eu cyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2023. Mae gweithgarwch recriwtio ychwanegol yn parhau ar gyfer y ddwy swydd wag sy'n weddill. Yn dilyn ymarfer recriwtio gan y Cadeirydd ac uwch aelodau staff, penodwyd aelod lleyg newydd o'n Pwyllgor Archwilio a Chraffu hefyd, a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2023.

Daw aelodau'r Cyngor ag ystod helaeth o brofiad gyda nhw, gyda gwybodaeth yn cwmpasu pob un o saith grŵp o gofrestreion CGA, ynghyd â phresenoldeb lleyg. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddi blynyddol i aelodau'r Cyngor ym mis Ebrill 2022, yn cynnwys nifer o siaradwyr allanol. Bydd diwrnod sefydlu ar gyfer aelodau newydd y Cyngor yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2023.

Hefyd, rydym yn cynnal ac yn cefnogi cronfa o aelodau annibynnol y Panel Priodoldeb i Ymarfer, aelodau'r Bwrdd Achredu AGA ac aseswyr y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Rydym wedi cynnal nifer o ymarferion recriwtio drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod gennym niferoedd digonol o aelodau sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol. Rydym wedi darparu hyfforddiant i'r holl aelodau drwy gydol y flwyddyn i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

## Materion amgylcheddol a chymunedol

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd i'r eithaf, yn unol â'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rydym wedi cyhoeddi datganiad ar y Ddyletswydd Adran 6 ar Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar ein gwefan, a adolygwyd gennym eleni.

# Mewn ffocws



### Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

A ninnau'n gorff bach, mae'r cyfleoedd i leihau ein heffaith amgylcheddol yn gyfyngedig, ond ceisiwn wneud hynny lle bynnag y bo'n bosibl.

Rydym yn ailgylchu gwastraff fel plastig, cardfwrdd a thuniau, ynghyd â chetris arlliw. Darperir nifer o fannau ailgylchu papur ar draws y swyddfa. Yn ein swyddfa cynllun agored, mae synwyryddion ar waith i sicrhau defnydd effeithlon o oleuadau. Mewn ystafelloedd llai (lle nad oes synwyryddion), anogir staff i ddiffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, ac mae arwyddion i'r perwyl hwnnw wedi cael eu gosod ledled y swyddfa.

Mae gennym bolisi gweithio hybrid ar waith sy'n golygu bod swyddogion yn cyfuno gweithio yn y swyddfa (am dri diwrnod yr wythnos o leiaf) a gweithio gartref. Felly, mae gofynion teithio wedi cael eu lleihau.

Mae gan swyddfa CGA gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhagorol a, phan fydd angen mynd i gyfarfodydd allanol, anogir staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae cyfleusterau cawod a standiau beiciau ar gael yn ein swyddfa. Yn ogystal, mae'r symudiad i wrandawiadau priodoldeb i ymarfer, ymweliadau achredu, cyflwyniadau a sesiynau hyfforddi rhithwir wedi lleihau gofynion teithio'n sylweddol, ar gyfer swyddogion a mynychwyr allanol.

Rydym yn parhau i symud tuag at fod yn swyddfa ddi-bapur. Rydym yn cyfathrebu â chofrestreion a rhanddeiliaid trwy e-bost (lle y bo'n bosibl) i leihau'r angen am ddeunydd print. Mae'r holl wrandawiadau priodoldeb i ymarfer ac ymweliadau achredu AGA yn ddi-bapur ac mae 99% o geisiadau i gofrestru'n cael eu cwblhau ar-lein.

## Ymgynghori â chyflogeion a rhanddeiliaid

### Cyflogeion

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu â'r holl gyflogeion, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau mewnol ac allanol.

Yn ogystal â'n trefniadau ffurfiol ar gyfer adolygu staff yn flynyddol, mae gennym amrywiaeth o ddulliau mwy anffurfiol o gydweithio. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â'r holl staff a chyfarfodydd tîm, defnyddio llyfrgell y staff a bwletinau e-bost ar ddatblygiadau gan yr uwch dîm rheoli, fel y bo'r angen. Rydym hefyd yn cynnal diwrnod cynllunio blynyddol ar gyfer staff, lle mae staff yn trafod ein Cynllun Strategol a llywio ei ddatblygiad.

Rydym yn parhau i anfon e-gylchlythyr chwarterol Cymraeg ar Waith at bob aelod o staff. Mae hwn yn rhoi cymorth i staff ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan ddarparu syniadau, cyfleoedd ac adnoddau i annog a galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Fforwm Cyflogeion yn rhoi cyfle i staff drafod a dylanwadu ar waith CGA mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, lles, a'r Gymraeg.

### Rhanddeiliaid

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o sianeli i ymgysylltu ac ymgynghori â'n partneriaid yn y sector addysg. Rydym yn cyfarfod â rhanddeiliaid yn rheolaidd ac yn ymgynghori'n anffurfiol ar amrywiaeth o weithgareddau.

Cawsom ddau ymgynghoriad ffurfiol eleni yn gysylltiedig â'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig, a'n Cynllun Strategol ar gyfer 2023-26.

Hefyd, rydym wedi ymgysylltu'n eang a chofrestreion a rhanddeiliaid ar draws yr holl sectorau fel rhan o'r prosiectau niferus rydym wedi'u harwain eleni, fel yr amlinellir ar hyd yr adroddiad hwn.

**Hayden Llewellyn**
**Prif Weithredwr**

7 Awst 2023



# Adroddiad atebolrwydd

## Llywodraethu corfforaethol

# Adroddiad y cyfarwyddwyr

## Y Cyngor

Mae gan y Cyngor 14 o aelodau, yn cynnwys saith aelod a benodir gan Weinidogion Cymru o enwebeion sefydliadau fel yr amlinellir yn Atodlen 2 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014, a saith aelod a benodir yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru. Ymdrinnir â strwythur pwyllgorau a llywodraethu'r Cyngor yn fanylach yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

Yr aelodau yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023 oedd:

| | |
|---|---|
| Angela Jardine, Cadeirydd | Jane Setchfield |
| Anne Pitman | Kelly Edwards |
| Berni Tyler | Kevin Pascoe |
| Clare Jones | Nicola Stubbins |
| Dave Williams | Rosemary Lait |
| Eithne Hughes | Steve Drowley |
| Gwawr Taylor | Sue Walker |

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn cynnwys un aelod lleyg (Andrew Bellamy).

## Uwch swyddogion

Yr uwch swyddogion ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023 oedd:

| | |
|---|---|
| **Prif Weithredwr** | Hayden Llewellyn |
| **Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer** | Elizabeth Brimble |
| **Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** | Lisa Winstone |
| **Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi** | Bethan Holliday-Stacey |

Mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr o Fuddiannau Aelodau, sydd ar gael ar wefan CGA, sy'n sy'n rhoi manylion unrhyw fuddiannau sy'n berthnasol i'w gwaith fel aelod o'r Cyngor, neu a allai fod yn berthnasol i hynny. Mae'n ofynnol i uwch swyddogion beidio â dal unrhyw swydd y cânt gydnabyddiaeth ariannol am ei chyflawni a fyddai'n gwrthdaro â'u dyletswyddau ar gyfer y Cyngor, ac adroddir am unrhyw swyddi di-dâl eraill hefyd. Datgelir manylion trafodion â phartïon cysylltiedig, gan gynnwys aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion, yn nodyn 19 i'r Cyfrifon.

# Datganiad o gyfrifoldebau CGA a'r Prif Weithredwr

O dan Baragraff 21 Atodlen 1 Deddf Addysg (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o gyflwr materion CGA ar ddiwedd y flwyddyn a'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i CGA gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol i:

- ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad o bwys yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol

Mae cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau CGA, wedi'u nodi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Prif Weithredwr, cadarnhaf:

- hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr CGA yn ymwybodol ohoni
- yr wyf wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i ddod i wybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a chadarnhau bod archwilwyr CGA yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn a'r dyfarniadau gofynnol ar gyfer pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy



# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae CGA wedi ymrwymo i gyflawni safonau uchel o lywodraethu wrth gyflawni ei amcanion corfforaethol, gan gynnwys rheoli ei adnoddau yn briodol. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer CGA yn 2022-23 a fframwaith risg a rheoli'r CGA, gan gloi gydag asesiad o'u heffeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn.

Yn rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol a chorff nad yw'n cael ei noddi gan y Llywodraeth, nid yw CGA wedi'i gyfrwymo'n ddeddfwriaethol gan God Llywodraethu Corfforaethol y llywodraeth ganolog, er ei fod yn dewis dilyn llawer o'i egwyddorion i gyfoethogi ei arferion. Yn rhan o'u telerau penodi a'r gyfres ddilynol o weithdrefnau llywodraethu, mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor fabwysiadu egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus trwy'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Gorau ar gyfer Aelodau CGA. Dylanwadir ar y Cod hwn gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Corff Cyhoeddus (a gyhoeddwyd gan swyddfa'r Cabinet yn 2011 ac a adolygwyd yn 2019), y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan), a'r egwyddorion ychwanegol a amlinellir yng Ngorchymyn 'Ymddygiad Aelodau' (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

## Rôl Cyngor y Gweithlu Addysg

Prif nodau a swyddogaethau'r CGA yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac eraill sy'n cefnogi dysgu ac addysgu yng Nghymru
- diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg

## Fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gyflawni ei weithgareddau, ac mae'n seiliedig ar genhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd CGA. Mae'n galluogi CGA i fonitro a rheoli ei weithrediadau.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gorff corfforaethol, a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 a Rheoliadau amrywiol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015. Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor (cyfeiriwch at Adroddiad y Cyfarwyddwyr am wybodaeth ychwanegol) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Gorau ar gyfer Aelodau.

Mae aelodau yn aelodau un o dri o bwyllgorau sefydlog y Cyngor: y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, a'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Bydd y Cyngor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, ac fel arfer bydd pob pwyllgor hefyd yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, ac adroddir busnes y pwyllgor i gyfarfod nesaf y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Adolygu Perfformiad, yn cynnwys y Cadeirydd a dau aelod arall, sy'n cytuno ar yr asesiad o berfformiad y Prif Weithredwr, yn cadarnhau dyfarnu unrhyw gynyddran ac yn gosod yr amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Caiff y fframwaith llywodraethu ei ffurfioli drwy Reolau Sefydlog y Cyngor, sy'n nodi sut y mae'r Cyngor a'r Pwyllgorau yn gweithredu. I gefnogi hynny, ceir cyfres o bolisïau a gweithdrefnau sy'n nodi sut y mae CGA yn gweithredu a'r broses ar gyfer cyflawni amcanion corfforaethol. Y rhain sy'n ffurfio system reoli fewnol CGA.

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol ar faterion fel ffurfio strategaeth'r Cyngor ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol; annog safonau uchel o briodoldeb, a hybu defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau

eraill ym mhob rhan o'r Cyngor, a sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i'w gyfrifoldebau statudol.

Mae rolau'r aelodau yn strategol ac maent yn cynnwys canolbwyntio ar strategaeth gorfforaethol, amcanion a thargedau strategol allweddol, cymeradwyo dogfennau polisi o bwys a phenderfyniadau o bwys sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill. O dan y Rheolau Sefydlog, caiff y Cyngor ddirprwyo cyfrifoldebau am faterion penodol i bwyllgorau'r Cyngor, y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr. Mae gan aelodau'r Cyngor a swyddogion gyfrifoldebau sy'n ategu ei gilydd o ran ffurfio a gweithredu polisïau CGA.

Mae'r cyfrifoldeb am reolaeth o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'i uwch staff, o fewn fframwaith rheoli strategol clir gan yr aelodau. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb, o dan y Cyngor, am brosesau trefnu, rheoli a staffio cyffredinol CGA, gan gynnwys ymddygiad a disgyblaeth y staff, sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac am fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a pholisïau mewnol CGA. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am lywodraethu corfforaethol priodol CGA, rheoli ei swyddogion gweithredol yn effeithiol, rheoli ariannol a chyfathrebu â rhanddeiliaid. Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu trefniadau dirprwyo os bydd yn absennol a bydd y Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer yn ymgymryd â'r rôl.

Cefnogir y Prif Weithredwr gan ei Uwch Dîm Rheoli (UDRh), sy'n cynnwys tri Chyfarwyddwr fel Uwch Swyddogion, a restrir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Mae'r UDRh yn cyfarfod yn fisol. Ei gylch gwaith yw cynghori'r Prif Weithredwr ar gynnydd yn unol â'i brif weithgareddau, cadarnhau dyraniad adnoddau, monitro a rheoli cyfrifon rheoli yn seiliedig ar gyllidebau y cytunwyd arnynt, adolygu a diwygio'r Gofrestr Risg, ac adolygu a chymeradwyo polisïau newydd a diwygiedig sy'n effeithio ar bob agwedd ar weithrediadau CGA.

Yn 2022-23, ymrwymodd y Cyngor i bedwar amcan corfforaethol, sef:

- bod yn rheoleiddiwr effeithiol sy'n gweithio er budd y cyhoedd a meithrin hyder yn y gweithlu addysg
- hybu dysgu a phroffesiynoldeb o fewn y gweithlu addysg
- ceisio ffurfio a dylanwadu ar bolisi addysgol yng Nghymru er budd y gweithlu addysg
- bod yn sefydliad cydnerth, galluog ac ariannol gynaliadwy sy'n cynnig gwerth am arian i gofrestreion

Dehonglir amcanion yn weithgareddau drwy'r Cynllun Strategol tair blynedd a'r Cynllun Gweithredol blynyddol. Goruchwylir perfformiad gweithredol ac ariannol gan y Pwyllgor Gweithredol drwy adolygiadau chwarterol, sy'n adrodd ar gyflawniadau yn unol ag amcanion ar gyfer y cyfnod adrodd. Cyflawnir atebolrwydd ariannol drwy'r prosesau pennu cyllideb flynyddol, yn seiliedig ar gynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo, a chynhyrchir cyfrifon rheoli misol, y mae'r Uwch Dîm Rheoli yn craffu arnynt. Seilir fformat y cyfrifon blynyddol ar Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Mae hyn yn sicrhau eglurder ynghylch datgelu perfformiad ariannol. Yna, caiff y Cyfrifon hyn, a'r systemau ariannol ategol, eu harchwilio'n allanol, i gadarnhau eu bod yn gywir a'u bod yn cydymffurfio â gofynion datgelu, a rheoleidd-dra trafodion ariannol.

## Fframwaith risg a rheoli

Mae'r fframwaith risg a rheoli yn seiliedig ar y Polisi Rheoli Risg sy'n ffurfio haen allweddol o drefniadau rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol CGA. Mae'r polisi'n ategu'r prif egwyddorion a amlinellir yn Llyfr Oren Trysorlys EM, er nad yw hyn wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol fel ymagwedd ar gyfer CGA. Mae'r polisi'n cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond, drwy'r Gofrestr Risg, mae'n cofnodi'r prosesau a ddefnyddir i leihau risg i lefel dderbyniol. Mae hefyd yn nodi bod yr holl staff yn chwarae rhan mewn nodi risgiau posibl newydd, er mai'r UDRh sy'n gyfrifol am reoli'r risgiau. Mae'r polisi'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2021.

Mae'r Gofrestr Risg yn rhoi manylion yr holl fygythiadau allweddol i gyflawni'r amcanion corfforaethol, y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredol. Rhoddir sgôr i bob risg allweddol yn seiliedig ar ei heffaith bosibl ar fusnes CGA a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd. Mae'r strategaeth reoli yn cynnwys derbyn, osgoi, lleihau neu drosglwyddo risgiau mewn ymateb i hynny. Mae camau penodol sy'n ofynnol yn cael eu hamlygu, eu dyrannu i uwch reolwr a'u gweithredu yn unol â therfynau amser penodol. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys gwerthusiad o lefel y "risg weddilliol" ar ôl gweithredu'r dull rheoli. Caiff risgiau agoriadol a gweddilliol eu cynrychioli drwy ddefnyddio system rybuddio goleuadau traffig, ac mae iddynt liw sy'n unol â hynny (coch/melyn/gwyrdd). Ystyriwyd yr holl risgiau ar adeg yr adolygiad chwarterol.



Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Gofrestr Risg yn cynnwys y prif risgiau canlynol:

🔴 Risg gynhenid 🟠 Risg weddilliol

| | Prif risg | Mesurau lliniaru allweddol |
|---|---|---|
| 🔴 🟠 | Os nad ydym yn cofrestru a rheoleiddio grwpiau cofrestreion yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, byddai niwed yn cael ei achosi i'n henw da ac fe allai arwain at gymryd camau cyfreithiol. | • Monitro nifer y ceisiadau a'r achosion Priodoldeb i Ymarfer<br>• Trefniadau ar waith i gefnogi gwiriadau cymhwysedd gan gyflogwyr<br>• Sefydlu gweithdrefnau diffyg cydymffurfio gyda chyflogwyr |
| 🔴 🟠 | Os yw gweithgareddau gweithredol yn golygu bod gwariant CGA yn fwy na'r incwm o ffïoedd cofrestru, mae'n bosibl na fydd digon o arian i gyflawni ein hamcanion. | • Pennu cyllidebau gochelgar<br>• Monitro a chraffu'n fanwl ar niferoedd cofrestru a gwariant<br>• Amlygu arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd<br>• Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw bryderon<br>• Cynnal lefelau digonol o gronfeydd ariannol wrth gefn |
| 🔴 🟠 | Os bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn gwneud penderfyniad sy'n cael ei herio yn yr Uchel Lys a'i golli, bydd goblygiadau i'r sefydliad o ran arian ac enw da. | • Cymwyseddau ar gyfer aelodau'r panel a recriwtio yn unol â'r rhain<br>• Gweithdrefnau ar waith ar gyfer aelodau a swyddogion<br>• Hyfforddiant blynyddol i aelodau'r panel a hyfforddiant chwe-misol i Gadeiryddion<br>• Cymorth cyfreithiol o ansawdd uchel ar gyfer paneli a gwasanaethau Swyddog Cyflwyno<br>• Protocolau ymdrin â'r cyfryngau ar waith<br>• Yswiriant Indemniad Proffesiynol ar waith |
| 🔴 🟠 | Ar ôl i CGA gael ei ddosbarthu fel Corff Cyhoeddus gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'i gynnwys wedi hynny yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig), gallai adnoddau CGA fod yn destun rheolaethau Senedd Cymru gan olygu bod y Senedd yn 'pleidleisio' ar ein cyllideb ac nid yw CGA yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn mwyach. | • Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod sut bydd y trefniant gweithio'n gweithredu<br>• Ceisio cyngor cyfreithiol ar ddogfennau a gwybodaeth allweddol<br>• Cynnal gwybodaeth am y sector o ran y prosesau dosbarthu a dynodi |
| 🔴 🟠 | Methiant i fod â chronfa ddata cofrestru ar waith sy'n addas i'r diben, gan arwain at anallu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. | • Contract ar waith i ddarparu'r gronfa ddata wedi'i huwchraddio<br>• Cynllun prosiect wedi'i ddatblygu i fonitro a rheoli'r broses o gyflawni'r prosiect<br>• System newydd i fod ar waith cyn diwedd cymorth TG ar gyfer y gronfa ddata bresennol |

Caiff y Gofrestr Risg ei hadolygu bob chwarter gan uwch swyddogion, ac mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu, sydd â chylch gwaith i oruchwylio polisi Rheoli Risg CGA. Adroddir ar y cynnydd a nodir risgiau a dulliau rheoli newydd yn ystod yr adolygiad rheolaidd gan yr Uwch Dîm Rheoli. Ychwanegwyd un risg newydd at y gofrestr yn 2022-23, mae hon wedi'i chynnwys yn y tabl uchod ac mae'n ymwneud ag uwchraddio'r gronfa ddata cofrestru.

Bydd y Cyngor yn gweld ac yn ystyried y Gofrestr Risg unwaith y flwyddyn, pan fydd aelodau'n cadarnhau bod yr asesiad cyffredinol yn gyson â pharodrwydd cyffredinol y Cyngor i dderbyn risg. Ystyrir bod y Cyngor yn wrth-risg ar hyn o bryd, ac adolygwyd hyn ddiwethaf yng Ngorffennaf 2022.

Caiff risgiau ariannol eu rheoli gan gyfres fanwl o Weithdrefnau Rheoli Ariannol sy'n nodi'r rheolaethau, ac yn pennu cyfrifoldebau a lefelau dirprwyo. Mae cydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn yn hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu da. Cafodd y rhain eu hadolygu ddiwethaf ym Mawrth 2022 i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Mae CGA yn benderfynol o sicrhau na chaiff twyll ei dderbyn na'i oddef. Mae ganddo nifer o gamau ar waith i sicrhau bod twyll yn cael ei atal, gan gynnwys gwahanu'r swyddogaethau a nodir yn y Gweithdrefnau Rheoli Ariannol, cysoni a monitro ariannol rheolaidd, Cod Ymddygiad Staff sy'n disgrifio'r safonau a ddisgwylir gan swyddogion CGA, systemau rheoli llinell clir a Pholisi Chwythu'r Chwiban. Ni fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn, ac ni fu unrhyw honiadau o gamymddwyn fel arall.

Mae'r system reoli fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol, yn hytrach nag i ddileu pob risg o fethu, â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu, nid sicrwydd llwyr. Mae'r system reoli fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGA, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny, a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system reoli fewnol wedi bod ar waith yn CGA yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

Mae cynllun Parhad Busnes ac Adfer yn sgil Trychineb CGA yn ymdrin â'r risgiau allweddol i CGA pe byddai bygythiad i barhad y busnes o ran adeiladau neu systemau gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cynnal prawf blynyddol ar y cynllun. Roedd senario eleni wedi'i seilio ar dân yn Nhŷ Eastgate a oedd yn golygu nad oedd y staff yn gallu defnyddio'r ddau lawr a bod ystafell y gweinydd wedi'i dinistrio, a sut byddem yn rheoli sefyllfa o'r fath, gan gynnwys cael systemau a gweinyddion yn ôl ar-lein. Roedd hyn wedi helpu i lywio cynllun Parhad Busnes ac Adfer yn sgil Trychineb wedi'i ddiweddaru ar gyfer y sefydliad.

Mae CGA yn sefydliad sydd â llawer iawn o ddata ar y gweithlu addysg yng Nghymru. Caiff y data ei gynnwys yng nghronfeydd data CGA gyda'r mesurau diogelu priodol ar waith a, lle y bo'n berthnasol, caiff ei rannu a chofrestreion unigol, a chaiff gwybodaeth benodol ei rhannu â chyflogwyr/sefydliadau eraill. Cedwir data mewnol arall yn ddiogel ac fe'i rheolir yn unol â'r egwyddorion diogelu data. Ni fu unrhyw achosion tor-data adroddadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, fel y cadarnhawyd mewn cyfarfodydd misol o'r Uwch Dîm Rheoli.

Oherwydd cynnydd parhaus yn y lefelau rhybudd byd-eang ynghylch seiberddiogelwch yn 2022-23, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein seilwaith TG i sicrhau bod ein systemau mewnol ac allanol yn aros yn gadarn. Caiff diogelwch gwybodaeth ei ategu drwy gadw data CGA bob nos ar wasanaeth cadw data wrth gefn mewn cwmwl oddi ar y safle.

Mae CGA wedi cyhoeddi dogfen Safonau Gwasanaeth sydd â system ac amserlen ar gyfer ymdrin â chwynion. Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae CGA yn ymrwymo i ddefnyddio ei adnoddau dynol i hybu llywodraethu corfforaethol cryf. Mae'n ymrwymo i ddatblygu pobl gymwys sydd wedi'u

hyfforddi'n dda i gyflawni swyddogaethau amrywiol CGA a swyddogaethau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd â rhaglen hyfforddi'r holl staff, gan ymdrin â phynciau penodol a chyffredinol. Mae hyn yn ychwanegol at ddarpariaeth hyfforddiant a nodwyd ar gyfer unigolion, gan gynnwys cymorth i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol.

Cynhaliwyd diwrnod hyfforddi blynyddol gydag aelodau'r Cyngor yn Ebrill 2022 yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys: materion llywodraethu, briff gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, briff ar faterion allweddol i staff cymorth dysgu mewn ysgolion sy'n gweithio mewn ysgolion ac AB, diweddariad ar adroddiad cyntaf y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim 'Sicrhau Model Cyflawni Cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid yng Nghymru', briff ar faterion allweddol ym maes AB a dysgu seiliedig ar waith, a sesiwn ar Ddatblygu a chyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol CGA. Mae diwrnod sefydlu wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau newydd a phresennol y Cyngor ar 19 Ebrill 2023 hefyd. Hefyd, rhoddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wybodaeth i'r aelodau am ddatblygiadau polisi Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Cyngor yn Nhachwedd 2022.

Mae gan CGA ei raglen Adolygu Perfformiad a Datblygiad blynyddol ei hun, sy'n asesu perfformiad swyddogion yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn nodi amcanion penodol ac anghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Mae'n rhaid i'r holl swyddogion gydymffurfio â Chod Ymddygiad Swyddogion CGA. Mae gan CGA amrywiaeth o bolisïau adnoddau dynol i sicrhau bod lefelau cymorth a disgwyliadau cyson ar waith. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ac aelodau penodedig o'r Cyngor ar gael i'r staff pe byddai angen yn codi. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod 2022-23.



## Adolygiad o effeithiolrwydd y Cyngor

Nodir presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 yn y tabl canlynol:

| Aelod | Presenoldeb yn y Cyngor (cyfanswm posibl mewn cromfachau) | Presenoldeb mewn pwyllgorau sefydlog (cyfanswm posibl mewn cromfachau) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gweithredol | Cofrestru a Rheoleiddio | Archwilio a Chraffu |
| Angela Jardine | 3(3) | 3(3) | | |
| Anne Pitman | 1(3) | | | 3(3) |
| Berni Tyler | 3(3) | | | 2(3) |
| Clare Jones* | 2(3) | | | 3(3) |
| Dave Williams | 3(3) | 2(3) | | |
| Eithne Hughes | 2(3) | 3(3) | | |
| Gwawr Taylor | 2(3) | 1(3) | | |
| Jane Setchfield | 3(3) | | 2(3) | |
| Kelly Edwards | 3(3) | | 3(3) | |
| Kevin Pascoe | 3(3) | | | 3(3) |
| Nicola Stubbins | 3(3) | | 3(3) | |
| Rosemary Lait | 3(3) | | 2(3) | |
| Steve Drowley | 2(3) | | 3(3) | |
| Sue Walker | 3(3) | 3(3) | | |

*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu

Mae'r aelodau yn cymryd rhan mewn Proses Adolygu Aelodau flynyddol, sy'n cynnwys hunanasesiad blynyddol o berfformiad gan yr aelodau eu hunain, a hefyd asesiad o berfformiad yr holl aelodau gan y Cadeirydd. Mae hyn wedi ei gwblhau'n ddiweddar ar gyfer y flwyddyn 2022-23 ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn.

Caiff cyflawniadau yn unol ag amcanion gweithredol eu hadrodd a'u hadolygu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn drwy Adolygiadau Chwarterol. Mae'r adolygiadau hyn yn nodi cyflawniad o ran canlyniadau tymor byr, ac yn amlygu unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill. Ystyrir y ddogfen hon gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli a chaiff ei goruchwylio gan y Pwyllgor Gweithredol. Rhoddir crynodeb o gyflawni amcanion CGA yn ystod 2022-23 yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

Yn ogystal â hyn, o ran gweithgareddau a ariennir yn gyhoeddus, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i fonitro cyflawniad yr amcanion gweithredol penodol hynny. Cyflawnwyd yr holl dargedau gweithredol.

# Pwyllgor Archwilio a Chraffu

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn chwarae rhan bwysig yn y strwythur llywodraethu corfforaethol, a thrwy ei adolygiadau, mae'n cynghori'r Prif Weithredwr ar effeithiolrwydd polisïau, systemau a gweithdrefnau. Mae ei Gylch Gwaith wedi'i gynnwys yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, mae wedi cael ac adolygu amryw adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol, wedi cwblhau asesiad o berfformiad archwilwyr mewnol ac allanol ac wedi adolygu'r Gofrestr Risg ym mhob cyfarfod. Mae'r pwyllgor hefyd wedi cael adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac adroddiad blynyddol ar wasanaethau TG.

Mae holl weithgareddau'r pwyllgor wedi cefnogi asesiad cadarnhaol o drefniadau llywodraethu CGA.

## Archwilio mewnol

Gweithredodd TIAA fel archwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. O fewn cynllun tair blynedd cyffredinol sy'n sicrhau bod pob maes yn cael sylw yn ei dro, cytunir ar raglen waith flynyddol cyn y flwyddyn ariannol. Wrth i adolygiadau gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Caiff canlyniadau'r flwyddyn eu crynhoi mewn Adroddiad Blynyddol.

Cwblhawyd cyfanswm o bum adroddiad yn 2022-23, yn cwmpasu: y broses sefydlu, systemau ariannol, rheolaeth gyllidebol a'r gyflogres, llywodraethu, cydymffurfiaeth reoleiddiol; cynllunio parhad busnes; ac adnoddau dynol. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi lefel y sicrwydd, ac argymhellion o bob adolygiad:

| Maes | Sicrwydd | Argymhellion: blaenoriaeth | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Uchel | Canolig | Isel |
| Sefydlu | Sylweddol | - | - | - |
| Cyllid: rheolaeth gyllidebol a'r gyflogres | Sylweddol | - | - | - |
| Llywodraethu: cydymffurfiaeth reoleiddiol | Sylweddol | - | - | - |
| Cynllunio parhad busnes | Sylweddol | - | - | - |
| Adnoddau dynol | Sylweddol | - | - | - |

Daeth yr Adroddiad Blynyddol i'r casgliad "…ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, mae prosesau rhesymol ac effeithiol gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar waith ar gyfer rheoli risg, rheoli a llywodraethu."

## Archwilio allanol

Mae asesu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu hefyd ymhlyg yng nghanfyddiadau ac adroddiadau'r archwiliad ariannol. Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yw archwilydd allanol statudol Cyngor y Gweithlu Addysg, a benodwyd o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. Cwblhawyd yr archwiliad o Gyfrifon Blynyddol 2022-23 ar ei ran gan Archwilio Cymru.

Roedd sylwadau'r archwiliad o Gyfrifon Blynyddol 2022-23 yn gadarnhaol, a chyflwynodd ACC farn archwilio ddiamod yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion o bwys wedi codi o ganlyniad i brofion yr archwiliad, a nodwyd nad oedd yr archwilwyr wedi dod o hyd i unrhyw achosion o bwys lle na ddefnyddiwyd a chyfrifwyd adnoddau yn briodol.

## Materion llywodraethu o bwys

Nid yw CGA wedi nodi unrhyw faterion llywodraethu o bwys yn ystod y flwyddyn. Ni nodwyd ychwaith unrhyw feysydd sy'n peri pryder y mae angen eu cryfhau neu eu gwella.

Bu fy mhwyslais gweithredu ar:

1. sicrhau bod CGA yn rheoli effaith COVID-19 yn effeithiol ar ei weithrediadau a'i staff ac yn parhau i gyflawni'r amcanion a bennwyd yn ei gynllun gweithredol
2. cofrestru a rheoleiddio pob un o'r saith grŵp o gofrestreion a nodir mewn deddfwriaeth
3. gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gychwyn newidiadau i ddeddfwriaeth ym meysydd cofrestru a rheoleiddio;
4. gweithredu prosesau achredu AGA fel y'u pennir mewn deddfwriaeth
5. cyflawni'r holl weithgareddau a ariennir gan grantiau Llywodraeth Cymru yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt
6. sicrhau bod CGA wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi yng Nghymru ar draws ei holl grwpiau cofrestreion. Roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo'r ymadfer yn sgil y pandemig COVID
7. deall y goblygiadau i CGA o ganlyniad i gael ei ddosbarthu'n gorff cyhoeddus a'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023

Ni fu unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, fu unrhyw atgyfeiriadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth o ran y gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ac ni wnaed unrhyw gwynion.

## Datganiad gan y Prif Weithredwr

I grynhoi, rwy'n fodlon bod fframwaith llywodraethu CGA yn ystod y flwyddyn wedi bod yn effeithiol, gan roi sicrwydd ei fod wedi stiwardio adnoddau'n briodol wrth gyflawni ei amcanion.

**Hayden Llewellyn**
**Prif Weithredwr**

7 Awst 2023



# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

# Polisi cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn nodi manylion yr arferion cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau'r Cyngor, a'r staff.

### Contractau gwasanaeth

Penodir staff yn unol â pholisi Recriwtio a Dethol CGA, sy'n mynnu bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan fo'n bosibl penodi mewn modd arall.

Mae penodiadau'r uwch staff a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhai penagored. Pe byddai'r swydd yn cael ei dirwyn i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y nodir yng Nghynllun Digolledu y Gwasanaeth Sifil.

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, mae cyflogau'r holl staff wedi'u seilio ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Mae cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr wedi'i seilio ar raddfa gynyddrannol, a chaiff unrhyw gynnydd ei gymeradwyo gan y Cadeirydd a'i gadarnhau gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad. Nid yw unrhyw daliadau bonws yn daladwy.

## Cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau*

Y Cadeirydd yw'r unig aelod o'r Cyngor y ceir rhoi cydnabyddiaeth ariannol iddynt, nid oes gan ddeiliad y swydd yr hawl i fod yn aelod o gynllun pensiwn CGA.

Parhaodd Angela Jardine fel Cadeirydd y Cyngor ar ôl cael ei hailethol i wasanaethu am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2023. Gan ei bod yn athrawes mewn swydd, caiff y penodiad hwn ei drin fel secondiad ac ad-delir cyfran o'i chyflog i'w chyflogwr. Ni chafodd Mrs Jardine unrhyw gydnabyddiaeth ariannol uniongyrchol nac unrhyw fuddiannau cyfatebol. Amcangyfrifir mai dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd yw ymrwymiad y Cadeirydd.

Telir treuliau holl aelodau eraill y Cyngor, gan gynnwys ad-dalu'r costau a ysgwyddwyd wrth deithio i gyfarfodydd a thalu costau staff cyflenwi neu'r costau cyfatebol i'w cyflogwyr, fel sy'n briodol. Adroddir y gwariant hwn fel costau Aelodau yn nodyn 3 (Costau uniongyrchol y rhaglen).

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu'r costau i'r cyflogwr - Cadeirydd: Angela Jardine | 37 | 35 |

*Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad

## Cydnabyddiaeth ariannol uwch staff*

Roedd cyflog, hawliau pensiwn a gwerth unrhyw fuddion cyfatebol trethadwy swyddogion uchaf CGA fel a ganlyn:

| Un ffigur cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog £'000 | | Taliadau bonws £'000 | | Buddion pensiwn £'000[1] | | Cyfanswm £'000 | |
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| **Hayden Llewellyn (G)**<br><br>Prif Weithredwr | 100-105 | 95-100 | - | - | -12 | 24 | 90-95 | 120-125 |
| **Elizabeth Brimble (B)**<br><br>Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer | 85-90 | 80-85 | - | - | 6 | 25 | 90-95 | 105-110 |
| **Lisa Winstone (B)**<br><br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 75-80 | 75-80 | - | - | 30 | 29 | 105-110 | 105-110 |
| **Bethan Holliday-Stacey (B)**<br><br>Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi | 75-80 | 70-75 | - | - | 16 | 44 | 95-100 | 115-120 |

*Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad

1 Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) gan dynnu (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser, hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig i drethi'r Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan CGA ac a gofnodir felly yn y cyfrifon hyn.

Nid oes taliadau bonws yn daladwy gan CGA.

## Datgeliadau tâl teg*

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol gweithlu'r sefydliad.

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Band yr unigolyn sydd â'r gydnabyddiaeth ariannol uchaf (£'000) | 100-105 | 95-100 |
| % y newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 5.13% | 0% |
| Cyflog a lwfansau cyfartalog (heblaw'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) | £37,372 | £36,419 |
| % y newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer yr holl gyflogeion | 2.62% | 4.22% |

Y gydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio ar gyfer y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn CGA yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-23 oedd £100,000 - £105,000 (2021-22, £95,000 - £100,000). Canran y newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol yw 5.13% (2021-22 0%). Mae'r cyflog a'r lwfansau cyfartalog (heblaw'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) wedi codi 2.62% (2021-22 4.22%) o ganlyniad i weithredu dyfarniad cyflog i'r holl staff o 1 Ebrill 2022.

| Cymarebau cyflog | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Cyfanswm cyflog a buddion y 25ain ganradd | £30,610 | £29,427 |
| Cymhareb cyflog y 25ain ganradd | 3.4 | 3.3 |
| Cyfanswm cyflog a buddion canolrifol | £31,535 | £29,427 |
| Cymhareb cyflog canolrifol | 3.3 | 3.3 |
| Cyfanswm cyflog a buddion y 75ed canradd | £39,690 | £39,127 |
| Cymhareb cyflog y 75ed canradd | 2.6 | 2.5 |

Roedd cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf 3.4 gwaith (2021-22 3.3) cydnabyddiaeth ariannol 25ain canradd y gweithlu, sef £30,610 (2021-22 £29,427), 3.3 gwaith (2021-22 3.3) cydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu, sef £31,535 (2021-22 £29,427) a 2.6 gwaith (2021-22 2.5) cydnabyddiaeth ariannol 75ed canradd y gweithlu, sef £39,690 (2021-22, £39,127). Mae'r holl gymarebau cyflog wedi cynyddu ychydig eleni. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyfarniad cyflog i'r holl staff a weithredwyd o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Rhoddwyd dyfarniad cyflog 4% i bob gradd staff AA i G7 a rhoddwyd dyfarniad cyflog 2% cyfunol a 2% anghyfunol i G6 ac uwch (gan gynnwys y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Yn 2022-23, ni chafodd unrhyw gyflogeion (2021-22, dim) gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (y Prif Weithredwr). Roedd y gydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £25,620 i £101,006 (2021-22, £24,630 i £99,025).

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddion cyfatebol. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr na gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod pensiynau.

## Buddion cyfatebol

Mae gwerth ariannol buddion cyfatebol yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan CGA ac y mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy. Ni thalwyd unrhyw fuddion cyfatebol yn ystod y flwyddyn.

## Buddion pensiwn*

| | Gronnwyd ar oedran pensiwn ar 31/3/23 a'r cyfandaliad perthnasol<br><br>£'000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad perthnasol ar oedran pensiwn<br><br>£'000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/23<br><br>£'000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/22<br><br>£'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hayden Llewellyn (G)**<br>Prif Weithredwr | 45–50 a chyfandaliad o 80-85 | 0–2.5 a chyfandaliad o 0 | 861 | 792 | -25 |
| **Elizabeth Brimble (B)**<br>Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Priodoldeb i Ymarfer | 30-35 | 0–2.5 | 545 | 493 | -6 |
| **Lisa Winstone (B)**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 20-25 | 0–2.5 | 226 | 197 | 13 |
| **Bethan Holliday-Stacey (B)**<br>Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi | 30-35 a chyfandaliad o 60-65 | 0–2.5 a chyfandaliad o 0 | 499 | 443 | 3 |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn gyfartal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai hynny a oedd eisoes yn y gwasanaeth ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **glasurol plws**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Ni ariennir y trefniadau statudol hyn a chaiff costau'r buddion eu talu gan arian a bleidleisir gan Senedd San Steffan bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan y rhannau **clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos** ac **alpha** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai hynny a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn trosglwyddo i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn cynllunio i ddileu gwahaniaethu a ddynodwyd gan y llysoedd yn y modd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn, gweler isod). Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n trosglwyddo i **alpha** yn cael eu 'bancio', a bydd y rhai hynny â buddion cynharach yn un o rannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, mae'r ffigur a ddyfynnir yn dangos gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun). Caiff aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian), â chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvo**s ac **alpha**. Mae buddion clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar adeg ymddeol. Ar gyfer **premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn annhebyg i **glasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **clasurol plws** yn ei hanfod yn gyfuniad o fuddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn fras fel clasurol a buddion ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen wedi eu cyfrifo fel premiwm. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff y cyfrif pensiwn y mae'r aelod wedi ei gronni ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw a chaiff cyfradd y pensiwn a gronnwyd ei gynyddu yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cronni mewn modd tebyg i **nuvos**, heblaw mai 2.32% yw'r gyfradd cronni. Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn yn gyfnewid am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn galwedigaethol cyfraniad diffiniedig sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn eu cyfateb hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i dalu'r gost o yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad o ganlyniad i salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun, os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm a chlasurol plws,** 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn y PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, mae'r ffigur a ddyfynnir yn gyfuniad o werth ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd yn actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi eu cronni ac unrhyw bensiwn gŵr neu wraig ddibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a gaiff eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Digolledu am golli swydd

Ni wnaed unrhyw daliadau digolledu am golli swydd yn ystod y flwyddyn i'r staff hynny sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff hwn, nac unrhyw gyflogeion eraill.

# Adroddiad staff

### Nifer y bobl a gyflogir yn ôl y math o gyflogaeth*

Yn ystod 2022-23, cyflogodd CGA 55.1 o staff~ ar gyfartaledd (2021-22 – 50.9) (gan gynnwys swyddogion ar gyfnod mamolaeth), fel a ganlyn:

| | CGA | LIC | Cyfanswm | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| Contract parhaol | 36.3 | 17.8 | **54.1** | 48.9 |
| Contract cyfnod penodol | 1 | 0 | **1** | 2 |
| Dros dro | 0 | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **37.3** | **17.8** | **55.1** | **50.9** |

~ Cyfwerth ag Amser Llawn

Roedd cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

| Yn ôl rhywedd | 31 Mawrth 2023 | | | 31 Mawrth 2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Staff** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** |
| Uwch | 1 | 3 | 4 | 1 | 3 | 4 |
| Cyffredinol | 19 | 34 | 53 | 16 | 33 | 49 |
| Dros dro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **37** | **57** | **17** | **36** | 53 |

Oedran cyfartalog staff CGA ar 31 Mawrth 2023 oedd 41 oed (40 oed, ar 31 Mawrth 2022).

### Absenoldeb oherwydd salwch

Mae CGAyn monitro absenoldeb oherwydd salwch yn barhaus, gan adolygu absenoldebau cronnol a hirdymor. Yn 2022-23, adroddodd cyflogeion gyfanswm o 218.5 o ddiwrnodau o absenoldeb oherwydd salwch (211 diwrnod, 2021-22) ac roedd 20.6% o'r rhain yn salwch hirdymor (65.4%, 2021-22).

Mae absenoldeb oherwydd salwch yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef cyfartaledd o 4.01 diwrnod fesul cyflogai (4.16 diwrnod, 2021-22). Ym mis Mawrth 2023, adroddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig mai'r cyfartaledd ar gyfer staff y gwasanaeth sifil yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 oedd 7.9 diwrnod fesul gweithiwr.

Ni fu unrhyw ymddeoliadau o ganlyniad i salwch.

## Costau staff*

| | CGA | | Gweithgareddau LlC | | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol £'000 | Staff eraill £'000 | Staff parhaol £'000 | Staff eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyflogau | 1,355 | 0 | 710 | 0 | **2,065** | **1,852** |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 151 | 0 | 80 | 0 | **231** | **195** |
| Costau pensiwn | 368 | 0 | 195 | 0 | **563** | **504** |
| **Cyfanswm** | **1,874** | **0** | **985** | **0** | **2,859** | **2,551** |
| Costau asiantaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **1,874** | **0** | **985** | **0** | **2,859** | **2,551** |

Ni ddefnyddiwyd unrhyw staff asiantaeth yn ystod 2022-23 (2021-22, dim).

Cynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS), sy'n cael ei alw'n 'alpha', ond ni all CGA nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2020. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil.

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £563,185 yn daladwy i'r PCSPS (2021-22, £504,016) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Fel arfer, mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun cyfan. Caiff cyfraddau cyfraniadau eu gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2022-23 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn **partneriaeth**, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Ni ddewiswyd yr opsiwn hwn gan yr un o gyflogeion CGA, ac felly ni wnaed unrhyw gyfraniadau cyflogwr.

### Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaed unrhyw daliadau o dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn (2021-22, dim).

### Pecynnau ymadael

Ni fu unrhyw ddiswyddiadau na chostau ymadael eraill yn ystod y flwyddyn (2021-22, £dim).

*Mae'r wybodaeth uchod yn destun archwiliad.

**Hayden Llewellyn**
**Prif Weithredwr**

7 Awst 2023



# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad archwilio

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian Parod, a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith gymwys a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Cyngor y Gweithlu Addysg ar 31 Mawrth 2023 ac o'i warged, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) 2014

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu yn ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall honno wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf Addysg (Cymru) 2014
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi amdanynt os, yn fy marn i y mae'r canlynol yn berthnasol:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu os na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill
- nid yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF

## Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol
- rheolaethau mewnol y mae'r Prif Weithredwr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall
- asesu gallu'r Cyngor y Gweithlu Addysg i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai fod y Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Addysg (Cymru) 2014.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwiliwyd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor y Gweithlu Addysg ynghylch y canlynol:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll a pha un a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, a phostio dyddlyfrau ariannol anarferol
- cael dealltwriaeth o fframwaith Cyngor y Gweithlu Addysg yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor y Gweithlu Addysg
- cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau yn y datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll yn sgil rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ariannol ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol

Fe wnes i hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor y Gweithlu Addysg a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor y Gweithlu Addysg sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

---

Ann-Marie Harkin

ar gyfer ac ar ran
Archwilydd Cyffredinol Cymru

8 August 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw cynnal cywirdeb gwefan y corff a archwilir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.



# Datganiadau ariannol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Grant gan Lywodraeth Cymru | | 9,389 | 8,192 |
| Ffïoedd cofrestru | | 2,644 | 2,570 |
| Incwm arall | 2 | 103 | 99 |
| Arian a ryddhawyd o'r gronfa wrth gefn llety | 15 | 53 | 55 |
| **Cyfanswm incwm** | | **12,189** | **10,916** |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | * | 2,859 | 2,551 |
| Costau rhaglen uniongyrchol | 3 | 1,546 | 1,415 |
| Costau rhaglenni sefydlu | 4 | 6,615 | 5,649 |
| Costau gweithredu eraill | 5 | 383 | 393 |
| Dibrisiad | 7 | 84 | 100 |
| Amorteiddiad | 8 | 424 | 349 |
| Dibrisiad prydles hawl defnyddio | 9 | 122 | - |
| Taliadau cyllid – prydles | 17 | 7 | - |
| **Cyfanswm gwariant** | | **12,040** | **10,457** |
| | | | |
| **Gwarged/(Diffyg) ar weithgareddau arferol** | | **149** | **459** |
| | | | |
| Llog derbyniadwy | 6 | 98 | 7 |
| | | | |
| **Incwm net ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn** | | **247** | **466** |

Mae'r holl weithgareddau a ariennir gan y Cyngor yn parhau.

*Mae dadansoddiad o gostau staff wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Staff.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65–77 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 7 | 89 | 144 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 904 | 958 |
| Ased hawl defnyddio – prydles | 9 | 638 | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **1,631** | **1,102** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | | 2,503 | 2,503 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 723 | 780 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 11 | 5,403 | 4,872 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **8,629** | **8,155** |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **10,260** | **9,257** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taliadwy eraill | 12 | (3,829) | (3,485) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 13 | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(3,829)** | **(3,485)** |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol +/- asedau cyfredol/rhwymedigaethau net** | | **6,431** | **5,772** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Incwm grant gohiriedig | 12 | (351) | (431) |
| Credydwr gohiriedig | 12 | - | (45) |
| Rhwymedigaeth prydles hawl defnyddio | 17 | (545) | - |
| **Cyfansm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(896)** | **(476)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **5,535** | **5,296** |
| | | | |
| **Ariannwyd gan: Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | 4,401 | 4,109 |
| Cronfa wrth gefn y gronfa ddata | 15 | 797 | 800 |
| Cronfa wrth gefn Priodoldeb i Ymarfer | 15 | 300 | 300 |
| Cronfa wrth gefn llety | 15 | 37 | 87 |
| **Cyfanswm cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | **5,535** | **5,296** |

**Hayden Llewellyn**
**Prif Weithredwr**

**7 Awst 2023**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65-77 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

## Datganiad o lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu | 14 | 1,052 | 1,368 |
| | | | |
| Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Llog a dderbyniwyd | 6 | 98 | 7 |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 7 | (30) | (44) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | (488) | (490) |
| Cynnydd mewn buddsoddiadau tymor byr | | (0) | (3) |
| Ased hawl defnyddio: taliadau prydles | 17 | (95) | - |
| Ased hawl defnyddio: taliad llog | 17 | (6) | - |
| | | | |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **531** | **838** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill** | | **4,872** | **4,034** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth** | | **5,403** | **4,872** |

## Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Cronfa wrth gefn gyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth gefn penodedig £'000 | Cyfanswm £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 4,109 | 1,187 | **5,296** | 4,885 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 247 | - | **247** | 466 |
| Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn penodedig (nodyn 15) | 45 | (53) | **(8)** | (55) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **4,401** | **1,134** | **5,535** | **5,296** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64–77 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2022-23, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cânt eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bydd y FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai ef yw'r mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Cyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor) er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Caiff y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor eu disgrifio isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd, nad ydynt mewn grym eto:

- Nid yw IFRS 17 Contractau Yswiriant wedi cael ei mabwysiadu eto gan y sector cyhoeddus ac nid yw'r dyddiad mabwysiadu wedi cael ei gadarnhau eto. Nod sylfaenol IFRS 17 yw gwneud contractau trosglwyddo risg yn debycach rhwng gwahanol endidau. Gan nad oes gan y Cyngor unrhyw gontractau yswiriant, mae hyn yn annhebygol o effeithio ar ddatganiadau ariannol y Cyngor pan gaiff ei fabwysiadu.

Safonau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae IFRS 16 Prydlesi wedi ei mabwysiadu a daeth i rym ar 1 Ebrill 2022. Gweler nodyn 1.10.

### 1.2 Incwm ffïoedd cofrestru

Mae'r flwyddyn gofrestru'n mynd o 1 Ebrill tan 31 Mawrth bob blwyddyn, ac mae'r ffi'n ddyledus ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i'r ffi gael ei thalu'n llawn, waeth ar ba ddyddiad y mae ymarferydd yn cofrestru gyda'r Cyngor mewn gwirionedd, ni roddir gostyngiad am gofrestru am ran o'r flwyddyn.

Cafodd incwm ffïoedd ei gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail gronnol, gydag unrhyw ffïoedd a dderbyniwyd ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn cael eu trin fel incwm wedi'i dalu ymlaen llaw a'u cofnodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhwymedigaeth.

### 1.3 Gwariant ar sefydlu

Caiff gwariant ar y rhaglen Sefydlu ei gydnabod ar sail y tymor academaidd pan gwblhawyd y gweithgaredd hyfforddi. Caiff gwariant ac incwm grant sy'n ddyledus ar gyfer tymor y Gwanwyn ei gynnwys o dan Groniadau (gwariant grant sy'n ddyledus i ysgolion), a symiau sy'n dderbyniadwy (grant sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru), gan ddibynnu ar amser y taliad a derbyn grantiau perthnasol. Weithiau, gallai tymor y gwanwyn rychwantu dwy flynedd academaidd, er nad yw hyn bob amser yn wir gan fod dyddiad diwedd tymor y gwanwyn yn cael ei bennu gan y Pasg. Am y rheswm hwn, ac fel y cymeradwywyd gan archwiliadau blaenorol, cyfrifir am dymor y gwanwyn, ni waeth pryd y mae'n gorffen, yn y flwyddyn y mae'r **holl** sesiynau **neu fwyafrif** y sesiynau yn digwydd ynddi.

### 1.4 Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel unrhyw ddarn unigol o offer sy'n costio mwy na £1,000 (gan gynnwys TAW) sydd ag oes economaidd/weithredol amcangyfrifedig o fwy na blwyddyn. Lle y bo'n fwy cyffredin ystyried cydrannau unigol fel grŵp, caiff y rhain eu trin fel asedau cyhyd â bod eu gwerth at ei gilydd yn fwy na'r trothwy cyfalafu.

Mae asedau anghyfredol wedi'u prisio ar sail cost hanesyddol ar ddiwedd y flwyddyn gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio'n berthnasol ym marn y Cyngor.

### 1.5 Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar bob ased anghyfredol ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu'r gost, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig pob ased, yn gyfartal dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

- caiff yr holl offer trydanol, gan gynnwys cyfrifiaduron ac offer swyddfa, ei ddibrisio ar sail linol dros dair blynedd

- caiff dodrefn a gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar sail linol dros bum mlynedd

Ym mhob achos, bydd dibrisiad yn dechrau o'r mis ar ôl prynu.

### 1.6 Asedau anniriaethol

Cyfalafir gwaith datblygu meddalwedd, cynnwys y wefan a thrwyddedau sy'n costio mwy na £1,000 (gan gynnwys TAW) ac sydd ag oes economaidd/ weithredol amcangyfrifedig o fwy na blwyddyn.

Darperir amorteiddiad ar asedau anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig:

- caiff y gwaith o ddatblygu'r gronfa ddata a'r wefan ei amorteiddio ar sail linol dros dair blynedd
- chaiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio ar sail linol dros eu hoes

Yn y ddau achos, bydd yr amorteiddio'n dechrau o'r mis ar ôl prynu.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth

Mae'r Cyngor yn cael incwm grant gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer y meysydd canlynol:

- gweinyddu dyfarnu SAC
- gweinyddu trefniadau cyllido, olrhain a chofnodi ar gyfer sefydlu
- datblygu a chynnal y PDP
- clywed apeliadau sefydlu a rhoi tystysgrifau sefydlu
- hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau addysg
- gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i CACAC
- dadansoddi data
- arwain ystod o fentrau cenedlaethol a phrosiectau ymchwil ar faterion addysgu a dysgu penodol

Caiff y grantiau a dderbynnir eu credydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn dod i law (ar sail croniadau), a chaiff unrhyw falansau sy'n weddill eu credydu i incwm cronedig neu ohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â hynny.

Lle ceir cyllid o ran prynu asedau anghyfredol ac anniriaethol, ymdrinnir ag incwm grant fel incwm gohiriedig (Rhwymedigaeth Hirdymor) ac fe'i rhyddheir yn gymesur â gwerth yr ased a ddefnyddir bob blwyddyn.

### 1.8 Costau pensiwn

Mae cyflogeion blaenorol a phresennol yn cael eu cynnwys yn narpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a ddisgrifir yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau'n cael eu hariannu. Mae'r Cyngor yn cydnabod costau disgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a gyfrifir ar sail croniadau. Rhwymedigaeth y PCSPS a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS) yw talu unrhyw fuddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Treth ar Werth (TAW)

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Cyngor tu hwnt i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth wrth werthu yn berthnasol ac ni ellir adennill treth wrth brynu ar bryniannau. Codir TAW adenilladwy i'r categori gwariant perthnasol neu caiff ei chyfalafu os yw'n ymwneud ag ased sefydlog. Lle codir treth wrth werthu neu lle gellir adennill TAW wrth brynu, datgenir y symiau heb gynnwys TAW.

### 1.10 Asedau hawl defnyddio

IYn unol ag IFRS 16, ar ddechrau contract, rydym yn asesu p'un a yw'r contract yn brydles ai peidio, neu b'un a yw'n cynnwys prydles ai peidio. Mae contract neu rannau o gontract sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am ystyriaeth yn cael eu dosbarthu'n brydlesi a chyfrifir amdanynt yn unol ag IFRS 16.

Mae contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles:

- os yw'r contract yn cynnwys defnyddio ased a nodwyd
- os oes gennym yr hawl i gael yr holl fudd economaidd, i raddau helaeth, o ddefnyddio'r ased drwy gydol y cyfnod defnyddio
- os oes gennym yr hawl i ddefnyddio'r ased yn uniongyrchol

Pan gydnabyddir prydles mewn contract, cydnabyddwn ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles ar y dyddiad dechrau. Mesurir yr ased hawl defnyddio ar gost i ddechrau, sy'n cynnwys swm

cychwynnol y rhwymedigaeth prydles wedi'i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau a chymhellion.

Mae'r ased hawl defnyddio'n cael ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinol o'r dyddiad dechrau i ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl defnyddio neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd cynharaf. Pennir oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau hawl defnyddio ar yr un sail ag oes ddefnyddiol asedau eiddo, offer a chyfarpar.

Mesurir y rhwymedigaeth prydles i ddechrau yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad dechrau, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, gan ddefnyddio'r gyfradd fenthyca gynyddrannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Rydym wedi eithrio contractau ar gyfer eitemau gwerth isel sy'n costio llai na £5,000 a chontractau â chyfnod byrrach na deuddeg mis.

**Gweithredu a thybiaethau**
Mae IFRS 16 wedi cael ei chymhwyso gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu, felly nid yw'r wybodaeth gymharol wedi cael ei hailddatgan a pharheir i adrodd arni o dan IAS 17 Prydlesi ac IFRIC 4 Pennu p'un a yw trefniant yn cynnwys prydles. Mae prydlesi gweithredu IAS 17 yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol bellach fel rhwymedigaeth prydles ac ased hawl defnyddio.

**Triniaeth flaenorol**
Yn y flwyddyn gymharu, mae prydlesi heblaw am brydlesi cyllid yn cael eu dosbarthu'n brydlesi gweithredu. Ni chydnabuwyd asedau a ddaliwyd yn flaenorol o dan brydlesi gweithredu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Cydnabuwyd taliadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail linol ar hyd cyfnod y brydles. Cydnabuwyd cymhellion prydles fel rhan annatod o gyfanswm traul y brydles, ar hyd cyfnod y brydles.

### 1.11 Rhagdaliadau

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trothwy de minimis o £1,200 (cost sy'n gyfwerth â £100 bob mis) ar gyfer cydnabod rhagdaliadau. Ac eithrio ar gyfer rhagdaliadau mis llawn, bydd y tâl a amlinellwyd yn dechrau o'r mis ar ôl y taliad.

### 1.12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer yr holl oblygiadau cyfreithiol neu ffurfiannol na ellir eu rhagnodi o ran amser na swm ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y mae ei angen i setlo'r goblygiad. Yn unol ag IAS 37, cydnabyddir darpariaethau dim ond lle bydd mantais economaidd yn debygol o gael ei throsglwyddo, a lle gellir amcangyfrif y swm yn rhesymol.

### 1.13 Buddsoddiadau tymor byr

Yn unol â'i bolisi ar Reoli Arian Parod, mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau tymor byr, am hyd at 12 mis, ar adnau gydag un o brif fanciau'r stryd fawr.

### 1.14 Buddion cyflogeion

Yn ôl y gofyn, mae'r Cyngor yn cydnabod cost buddion cyflogeion, gan gynnwys:

- buddion cyflogeion tymor byr, sef 'cost' gwyliau blynyddol heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn
- buddion ôl-gyflogaeth, o ran buddion terfynu

### 1.15 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae swyddogaethau craidd y Cyngor yn cael eu cyllido gan incwm o ffioedd cofrestru blynyddol statudol ymarferwyr, ac mae gweithgareddau eraill a gwblheir ar ran Llywodraeth Cymru yn cael eu cyllido gan grant. Derbynnir incwm ffioedd ymlaen llaw bob blwyddyn a chaiff cymorth grant ei dynnu i lawr bob tri mis ac yna bob mis, yn ôl yr angen. Oherwydd natur anfasnachol y gweithgareddau hyn a'r ffynonellau cyllid hyn, nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risg ariannol.

Cedwir ei falansau arian mewn cyfrifon banc masnachol: felly mae'r Cyngor yn agored i gyn lleied o risg â phosibl o ran cyfraddau llog. Er bod y Cyngor yn gallu cael benthyg arian, ni fu angen iddo wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

### 1.16 Cyfnewid tramor

Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn.

## 2. Incwm arall

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm amrywiol | **27** | 25 |
| Contract MAGI gyda Llywodraeth Cymru | **76** | 74 |
| **Cyfanswm** | **103** | **99** |

Mae CGA dan gontract i Lywodraeth Cymru i weinyddu a datblygu ymhellach y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid (MAGI) yng Nghymru. Mae'r contract wedi cael ei ymestyn tan fis Ionawr 2024.

## 3. Costau rhaglen uniongyrchol

| | Cyngor £'000 | LIC £'000 | 2022-23 cyfanswm £'000 | 2021-22 cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau aelodau | 32 | 7 | **39** | 36 |
| Costau aelodau paneli | 94 | - | **94** | 98 |
| Costau'r bwrdd achredu AGA | 54 | 4 | **58** | 40 |
| Pasbort Dysgu Proffesiynol | - | 117 | **117** | 148 |
| Ysgrifenyddiaeth CACAC | - | 140 | **140** | 74 |
| Hyrwyddo Gyrfaoedd | - | 251 | **251** | 74 |
| Cynnal a datblygu'r gronfa ddata | 12 | 2 | **14** | 14 |
| Ffïoedd cyfreithiol a phroffesiynol – PiY | 784 | - | **784** | 876 |
| Costau cyfieithu | 16 | - | **16** | 17 |
| Costau argraffu, postio, hyrwyddo a ffïoedd proffesiynol | 32 | 1 | **33** | 38 |
| **Cyfanswm** | **1,024** | **522** | **1,546** | **1,415** |

Mae gwariant Ysgrifenyddiaeth CACAC yn uwch eleni o ganlyniad i'r gwaith ychwanegol y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano yn rhan o'r llythyr cylch gwaith. Roedd hyn yn golygu amser ychwanegol gan aelodau paneli a defnyddio cwmni allanol i ymgymryd â'r gwaith ymchwil a oedd yn ofynnol.

Mae costau Hyrwyddo Gyrfaoedd yn uwch eleni, o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch eirioli a recriwtio yn 2022/23 a chost y contract cyfryngau cymdeithasol a chynnwys digidol nad oedd ar waith yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae ffïoedd cyfreithiol Priodoldeb i Ymarfer yn is eleni oherwydd bod llai o wrandawiadau wedi'u cynnal (60 yn 2021/22 o gymharu â 46 a gynhaliwyd yn 22/23).

## 4. Costau rhaglenni sefydlu

| Holl wariant Llywodraeth Cymru | 2022-23<br>£'000 | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddu | **85** | 72 |
| Gwariant grant sefydlu | **6,530** | 5,577 |
| **Cyfanswm** | **6,615** | **5,649** |

Yn ystod tymor yr hydref 2021, cynyddodd Llywodraeth Cymru lefel y cyllid y mae CGA yn ei ryddhau i ysgolion sy'n darparu cymorth sefydlu i ANG o uchafswm o £700 y tymor i £900 y tymor, a sicrhawyd bod £350 y tymor ar gael hefyd i'r rhai sy'n ymgymryd â rôl mentor sefydlu. Er bod nifer yr ANG sy'n derbyn cyllid sefydlu yn is na blynyddoedd blaenorol, mae mwy o daliadau wedi cael eu gwneud ar y gyfradd uchaf fesul tymor, sef £1,250.

Ar ran Llywodraeth Cymru, mae CGA yn gweinyddu cyllid i'r consortia rhanbarthol/awdurdodau lleol/ysgolion ar gyfer darparu'r rôl dilyswr allanol. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai ANG cyflenwi tymor byr yn cael eu cefnogi trwy'r broses sefydlu gan fentor allanol sy'n cyflawni rôl ddeuol, sef mentor sefydlu a dilyswr allanol. Ariennir y rôl mentor allanol ar gyfradd o £817 fesul ANG a gynorthwyir, ac ariennir y rôl dilyswr allanol ar gyfradd o £467 fesul ANG a gynorthwyir. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae nifer yr ANG sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu trwy waith cyflenwi tymor byr wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â blwyddyn academaidd 2021-22, ac mae hyn wedi effeithio ar lefel y cyllid a dalwyd a'r grant sy'n ofynnol i gefnogi rolau mentoriaid allanol/dilyswyr allanol.

## 5. Costau gweithredu eraill

| | Cyngor<br><br>£'000 | LIC<br><br>£'000 | 2022-23 cyfanswm £'000 | 2021-22 cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau swyddogion | 6 | - | 6 | 1 |
| Hyfforddi a recriwtio | 32 | - | 32 | 17 |
| Rhent ac ardrethi | 54 | - | 54 | 169 |
| Tâl am wasanaethau a chyfleustodau | 59 | - | 59 | 53 |
| Ffïoedd proffesiynol | 47 | 2 | 49 | 1 |
| Yswiriant | 20 | - | 20 | 15 |
| Argraffu a deunydd ysgrifennu | 3 | - | 3 | 3 |
| Postio | 23 | - | 23 | 9 |
| Costau cyfrifiaduron | 67 | - | 67 | 57 |
| Hurio lleoliadau | 3 | - | 3 | - |
| Ffïoedd archwilio | 18 | - | 18 | 18 |
| Cynnal a chadw | 1 | - | 1 | 2 |
| Costau eraill | 48 | - | 48 | 48 |
| **Cyfanswm** | **381** | **2** | **383** | **393** |

Mae costau recriwtio'n uwch eleni oherwydd bod nifer uwch o swyddi gwag wedi cael eu llenwi trwy asiantaethau recriwtio y mae'n rhaid talu ffïoedd iddynt. Mae rhent ac ardrethi'n ymddangos yn is eleni o ganlyniad i'r driniaeth gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi IFRS 16, sy'n golygu bod y brydles a chostau cysylltiedig yn cael eu cynnwys bellach yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn hytrach na'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae ffïoedd proffesiynol yn uwch eleni o ganlyniad i gynnydd mewn ffïoedd cyfreithiol a chomisiynu prosiect darganfod ar gyfer cronfa ddata cofrestru newydd. Mae costau postio'n uwch eleni o ganlyniad i ymarfer postio ar gyfer y Cod Ymddygiad newydd.

## 6. Llog derbyniadwy

Derbyniwyd £97,819 (2021-22, £7,125) o log yn ystod y cyfnod o ran cyfrifon banc y Cyngor, gan gynnwys croniad o £2,558 (2021-22, £1,482).

## 7. Asedau anghyfredol

| | Offer swyddfa £'000 | Offer cyfrifiadurol £'000 | Dodfren a ffitiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 45 | 209 | 323 | 577 |
| Ychwanegiadau | 4 | 26 | 0 | 30 |
| Gwarediadau | (3) | (8) | (1) | (12) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **46** | **227** | **322** | **595** |
| | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 41 | 163 | 229 | 433 |
| Cost am y flwyddyn | 3 | 27 | 54 | 84 |
| Gwarediadau | (2) | (8) | (1) | (11) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **42** | **182** | **282** | **506** |
| | | | | |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth 2023** | **5** | **45** | **40** | **89** |
| | | | | |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 1 Ebrill 2022** | **4** | **46** | **94** | **144** |

O'r Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth 2023, roedd £3,600 i gefnogi gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (£4,700, ar 31 Mawrth 2022).

## 8. Asedau anniriaethol

| | Datblygiadau i'r gronfa ddata wedi'u hailddatgan £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 2,392 | 2,392 |
| Ychwanegiadau | 430 | 430 |
| Gwarediadau | (4) | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **2,818** | **2,818** |
| | | |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,493 | 1,493 |
| Cost am y flwyddyn | 424 | 424 |
| Gwarediadau | (4) | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1,913** | **1,913** |
| | | |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth 2023** | **904** | **904** |
| | | |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 1 Ebrill 2022** | **958** | **958** |

O'r Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth 2023, roedd £777,000 i gefnogi gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (£913,000, ar 31 Mawrth 2022), yn ymwneud yn bennaf â pharhau i ddatblygu platfform Addysgwyr Cymru a'r PDP.

Cynhwyswyd trwyddedau meddalwedd o £59,000 yn anghywir fel ychwanegiad ased sefydlog anniriaethol yn 2021/22 ac fe'u dilëwyd o'r balans agoriadol ar 1 Ebrill 2022 a ddatganir uchod. Mae'r cywiriad hefyd wedi cael ei gynnwys mewn ychwanegiadau at y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, ond yr ychwanegiadau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn oedd £430,000.

Ni amharwyd ar Asedau Anghyfredol nac Anniriaethol, sydd wedi'u dangos yn unol â'u cost ac sy'n cael eu hystyried yn 'werth teg'.

## 9. Ased hawl defnyddio - prydles

| | Prydles swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---:|---:|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Cyflwynwyd yn y flwyddyn | 760 | 760 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **760** | **760** |
| | | |
| **Dibrisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Cost am y flwyddyn | 122 | 122 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **122** | **122** |
| | | |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth 2023** | **638** | **638** |
| | | |
| **Gwerth Net ar Bapur ar 1 Ebrill 2022** | **-** | **-** |

Daeth IFRS16: Prydlesi i rym ar 1 Ebrill 2022. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safon hon ac wedi mabwysiadu'r dull syml o gyflwyno asedau hawl defnyddio. Cyflwynwyd y rhain ar 1 Ebrill 2022 ac ni wnaed unrhyw addasiad i ffigurau cymharol. Yr unig ased hawl defnyddio yw'r brydles swyddfa ar gyfer lloriau 9 a 10 Tŷ Eastgate. Daw'r brydles i ben ar 30 Mehefin 2028.

## 10. Symiau masnach a symiau eraill derbyniadwy

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---:|---:|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | **590** | 660 |
| Rhagdaliadau | **133** | 120 |
| **Cyfanswm** | **723** | **780** |

Mae'r gostyngiad mewn symiau derbyniadwy eraill i'w briodoli'n bennaf i amseriad a gwerth dyledwr diwedd y flwyddyn LIC.

## 11. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | **4,872** | 4,034 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **531** | 838 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,403** | **4,872** |

Cadwyd balansau arian parod y Cyngor mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chadwyd unrhyw falansau gyda Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EF.

## 12. Symiau masnach a symiau taladwy eraill

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Ffïoedd cofrestru a ragdalwyd | 815 | 576 |
| Symiau taladwy eraill | 372 | 520 |
| Rhwymedigaethau prydles hawl defnyddio | 125 | - |
| Treth arall a nawdd cymdeithasol | 74 | 71 |
| Pensiwn | 58 | 53 |
| Incwm gohiriedig: grant Llywodraeth Cymru | 555 | 472 |
| Croniadau | 1,830 | 1,793 |
| **Cyfanswm** | **3,829** | **3,485** |
| | | |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn** | | |
| | | |
| Incwm gohiriedig: grant Llywodraeth Cymru | **351** | **431** |
| Credydwr gohiriedig | **-** | **45** |
| Rhwymedigaethau prydles hawl defnyddio | **545** | **-** |
| **Cyfanswm** | **896** | **476** |

Mae croniadau'n uwch eleni yn bennaf oherwydd gwerth y croniad Sefydlu ar ddiwedd y flwyddyn (cyfeiriwch at nodyn 4).

Derbyniodd y Cyngor incwm grant gan Lywodraeth Cymru tuag at gost asedau anghyfredol. Oherwydd y bydd yr asedau hyn yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol, cydnabyddir rhwymedigaeth ohiriedig adeg y prynu, a gaiff ei rhyddhau dros oes yr asedau.

## 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Caiff darpariaethau eu cydnabod yn y datganiadau ariannol pan fydd y Cyngor yn ystyried bod ganddo rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd, yn ôl pob tebyg, yn arwain at drosglwyddo budd economaidd ac y gellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy.

| | Adnewyddu adeiladau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | - | - |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | - |
| Rhyddhawyd yn y flwyddyn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **-** | **-** |

## 14. Nodiadau i'r datganiad llif arian parod

**Cysoni gwarged ar weithgareddau cyffredin â mewnlif arian net o weithgareddau cyffredin**

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/Gwarged ar weithgareddau cyffredin | 149 | 459 |
| Dibrisiad | 206 | 100 |
| Amorteiddiad | 424 | 349 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 345 | 693 |
| (Cynnydd)/ Gostyngiad mewn Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 57 | (186) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Credydwr gohiriedig | (43) | (7) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mwn rhwymedigaeth Ohiriedig | (79) | 15 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | - | - |
| Rhyddhad o/i gronfeydd wrth gefn penodedig | (8) | (55) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau cyffredin** | **1,052** | **1,368** |

Mae'r ffigwr dibrisiad uchod yn cynnwys £122,000 ar gyfer ased hawdl i ddefnyddio - les.

**Dadansoddiadau o newidiadau mewn cronfeydd net yn ystod y cyfnod**

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | **4,872** | 4,034 |
| Mewnlif/(all-lif) arian net | **531** | 838 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth** | **5,403** | **4,872** |

Cafodd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2023 eu dal gyda banc masnachol (gan gynnwys swm o £2,503,279 a gadwyd mewn cyfrif â 95 diwrnod o rybudd), ac mewn arian parod.

## 15. Cronfeydd wrth gefn penodedig

Yn unol â strategaeth ariannol y Cyngor, mae'r cronfeydd wrth gefn penodedig canlynol wedi eu sefydlu:

**Cronfa wrth gefn Priodoldeb i Ymarfer** – er mwyn lleihau effaith amrywiad yn nifer yr achosion a atgyfeirir ar sefyllfa ariannol y Cyngor i'r eithaf, ac i ddarparu ar gyfer costau unrhyw her gyfreithiol uwchben a thu hwnt i'r costau hynny a delir gan Yswiriant Indemniad Proffesiynol.

**Cronfa wrth gefn y gronfa ddata** – er mwyn ariannu amnewid y gronfa ddata Cofrestr Ymarferwyr Addysg.

**Cronfa wrth gefn llety** – er mwyn cefnogi costau'r Cyngor yn y dyfodol o ran ei anghenion llety, gan gynnwys y gofyniad ar gyfer gofod ychwanegol i gynnal gwrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer yn fewnol.

| | Cronfa wrth gefn y gronfa ddata £'000 | Cronfa wrth gefn Priodoldeb i Ymarfer £'000 | Cronfa wrth gefn llety £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 800 | - | 87 | 1,187 |
| Rhyddhau o'r cronfeydd wrth gefn | (3) | - | (50) | (53) |
| Ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **797** | **300** | **37** | **1,134** |

## 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor ymrwymiadau cyfalaf gwerth £559,179 (2021-22, £159,563). Mae hyn yn ymwneud â gwaith parhaus i uwchraddio'r gronfa ddata Cofrestru, datblygu cynnwys digidol ar gyfer Addysgwyr Cymru a'r gwaith datblygu sy'n ofynnol ar gyfer categorïau cofrestru ychwanegol o fewn y gronfa ddata cofrestru bresennol.

## 17. Rhwymedigaethau Prydles Hawl Defnyddio

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Prydlesi a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 760 | - |
| Ad-daliadau | (95) | - |
| Costau cyllid | 6 | - |
| **Cyfanswm** | **671** | **-** |
| | | |
| Ymrwymiad blynyddol ar brydlesi adeiladau yn ôl blwyddyn : | | |
| O fewn blwyddyn | 125 | - |
| | | |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 515 | - |
| Mwy na phum mlynedd | 31 | - |
| | 546 | |
| | | |
| **Cyfanswm** | **671** | **-** |

## 18. Deilliannau ac Offerynnau Ariannol eraill

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau, ac mae'n lliniaru'r posibilrwydd o fod yn agored i risg hylifedd drwy reoli ei adnoddau.

Caiff pob ased a rhwymedigaeth ei nodi mewn arian sterling, felly nid yw'n agored i risgiau arian cyfred.

## 19. Trafodion â Phartïon Cysylltiedig

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig ac, yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor grant a ddaeth i gyfanswm o £9,389,000 (£8,192,000 2021-22). Mae hyn yn cynnwys balans dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn o £545,860, (£627,164 2021-22) ar gyfer swm terfynol y grant a dynnir i lawr ar gyfer 2022-23, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ym Mehefin. Yn ogystal, yn unol â nodyn 2, mae gan y Cyngor gontract gyda Llywodraeth Cymru i weinyddu a datblygu ymhellach y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor £75,766 (£74,136 2021-22) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith hwn dan gontract. Ni fu unrhyw drafodion gwariant gyda Llywodraeth Cymru yn ystod 2022-23 (£dim 2021-22).

Caiff aelodau o'r Cyngor hefyd fod â swyddogaethau mewn sefydliadau y mae'r Cyngor yn ymdrin â nhw. Fodd bynnag, nid oes gan aelodau o'r Cyngor unrhyw ddylanwad ar y trafodion hyn gan eu bod yn digwydd yn rhan o weithgareddau arferol y Cyngor.

Yn ystod 2022-23, nid oedd aelodau nac uwch swyddogion, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, yn gysylltiedig ag unrhyw drafodion gyda'r Cyngor, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ar wahân i dalu treuliau a chyflogau fel arfer.

## 20. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol (2021-22, £dim).

## 21. Digwyddiadau ers diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd ar ddyddiad llofnodi'r Cyfrifon hyn.

Cymeradwyodd y Prif Weithredwr y Cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar 7 Awst 2023.

Cedwir pob hawl © Cyngor y Gweithlu Addysg 2023